# Diweddariadau yn y Cod Dioddefwyr newydd

## Trosolwg

Mae'r Cod Dioddefwyr (y Cod[1]) yn ganllaw ymarferol a defnyddiol i ddioddefwyr troseddau ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol. Mae'n nodi'r lefel ofynnol o wasanaeth y dylai dioddefwyr ei chael yng Nghymru a Lloegr.

Er bod y Bil Dioddefwyr a Charcharorion yn manylu ar bedair egwyddor allweddol y mae'n rhaid i'r Cod eu hadlewyrchu ac yn gosod y fframwaith y mae'n rhaid i'r Cod ei ddilyn, mae manylion ynghylch sut a phryd y mae'r gwasanaethau i'w darparu i ddioddefwyr yn eistedd yn y Cod ei hun. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Cod a sut y mae'n berthnasol i'r Bil ym mhapur polisi'r Cod Dioddefwyr.[2]

Ym mis Ebrill 2021, cafodd y Cod ddiweddariad eang, a oedd yn cynnwys ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ac a arweiniodd at fersiwn hawdd ei defnyddio yn nodi'r 12 hawl allweddol i ddioddefwyr. Nid ydym yn cynnig diwygio'r Cod cyfan eto, ond byddwn yn cyhoeddi Cod newydd o dan y Bil ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, a fydd yn ei ddiweddaru i'w gryfhau ac i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau diweddaraf.

Nid yw'r Cod drafft hwn yn ddogfen derfynol, ac rydym wedi nodi isod rai o'r meysydd y bwriadwn ymgynghori arnynt. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau, Comisiynwyr a phartïon eraill sydd â buddiant wrth i ni ddatblygu'r Cod newydd hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd, er mwyn ein galluogi i ystyried unrhyw ddiwygiadau a allai godi yn ystod y broses hon.

Ar hyn o bryd, rydym yn cyhoeddi drafft dros dro o'r Cod newydd i ddangos yr ymrwymiadau i newidiadau hyd yn hyn, sy'n adlewyrchu:

- y newidiadau y manylir arnynt yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion;
- ymrwymiadau presennol y Llywodraeth yn dilyn ymgynghori a chraffu cyn deddfu ar y Bil Dioddefwyr drafft;
- y ddeddfwriaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd ers y diweddariad diwethaf o'r Cod;
- mân newidiadau technegol a threfnu i wella eglurder a chywirdeb.

[1] Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau gwybodaeth gyhoeddus ategol - GOV.UK (www.gov.uk)

[2] Dalen ffeithiau: Y Cod Dioddefwyr (publishing.service.gov.uk)

# Newidiadau arfaethedig i’r Cod Dioddefwyr

1. **Egluro’r pedair egwyddor gyffredinol y mae’n rhaid i’r Cod eu hadlewyrchu**

Mae’r Cod drafft yn nodi’r pedair egwyddor gyffredinol sydd wedi’u hymgorffori yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, gan ei gwneud yn glir bod rhaid i’r Cod adlewyrchu’r rhain a nodi sut y mae’n gwneud hynny.

2. **Diweddaru pwy a ddiffinnir fel dioddefwr o dan y Cod**

Yn unol â’r Bil, mae’r Cod drafft bellach yn egluro bod y term dioddefwr yn cynnwys y rhai sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i:

- **‘Ymddygiad’ troseddol – yn hytrach na ‘thramgwydd’ droseddol.** Mae'r iaith ddiwygiedig hon yn ei gwneud yn glir nad oes angen cyhuddiad neu euogfarn er mwyn i berson fod yn ddioddefwr o dan y Cod. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod rhai hawliau'n berthnasol cyn y pwyntiau hyn.
- **Cael eich geni o ganlyniad i dreisio.** Rydym bellach wedi ei gwneud yn glir bod y rhai sydd wedi dioddef niwed oherwydd iddynt gael eu geni o ganlyniad i dreisio yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr o dan y Cod.
- **Tystio i ymddygiad troseddol.** Rydym wedi diweddaru’r iaith i wneud iaith bresennol y Cod yn gliriach bod tystion yn gymwys i dderbyn gwasanaethau penodol o dan y Cod os ydynt wedi dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i fod yn dyst i ymddygiad troseddol.
- **Gweld, clywed, neu brofi effeithiau ymddygiad troseddol sy'n ymwneud â cham-drin domestig fel plentyn o dan 18 oed** lle mae'r person sy'n cael ei gam-drin neu'n cyflawni'r cam-drin yn perthyn i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant amdano. Rydym wedi’i gwneud yn glir bod plant yn yr amgylchiadau hyn yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu’r diffiniad deddfwriaethol o blant sy’n ddioddefwyr cam-drin domestig (Deddf Cam-drin Domestig 2021).

Mae rhai diwygiadau technegol pellach wedi’u gwneud i egluro pwy all ddod o dan y diffiniad o aelodau agos o’r teulu mewn profedigaeth oherwydd trosedd, ac nad yw ‘llefarydd teulu enwebedig’ ar gyfer y teuluoedd hynny yn cael ei ddiffinio fel dioddefwr ond y gallai dderbyn hawliau Cod ar eu rhan.

### 3. Nodi lle bydd rhai hawliau yn berthnasol i bob dioddefwr

Mae Hawliau 1, 4 a 12 (sy'n ymwneud â gallu deall a chael eu deall, cael gwasanaethau cymorth, a gwneud cwynion am hawliau nad ydynt yn cael eu bodloni) yn parhau i fod yn berthnasol i bob dioddefwr, gan gynnwys y rheini yn y diffiniad wedi'i ddiweddaru fel y nodir uchod. Mae Hawl 4 wedi'i diwygio i egluro y gall mynediad at wasanaethau cymorth fod yn berthnasol waeth beth fo'r rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol. Gall hyn fod trwy gysylltu â nhw'n uniongyrchol, a/neu drwy atgyfeiriadau gan yr heddlu ar gyfer y rhai sy'n destun trosedd neu sydd wedi cael profedigaeth oherwydd trosedd.

Rydym wedi egluro bod Hawliau Uwch o dan y Cod – megis derbyn gwybodaeth yn gynt gan asiantaethau mewn achosion – yn parhau i fod yn berthnasol i ddioddefwyr sydd wedi bod yn destun trosedd neu sydd wedi cael profedigaeth oherwydd trosedd. Ar wahân, mae Siarter y Tystion yn nodi sut y gall tystion gael mynediad at gymorth ychwanegol wrth fynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Bydd hawliau gwahanol yn parhau i fod yn berthnasol yn wahanol gan ddibynnu ar ystod o ffactorau gan gynnwys lle mae'r dioddefwr yn blentyn, natur y drosedd, a'r amgylchiadau sy'n achosi i rywun ddod yn ddioddefwr y drosedd honno. Byddwn yn ystyried gydag asiantaethau yr effeithir arnynt ac yn ystod proses ymgynghori a oes angen rhagor o fanylion yn y Cod.

### 4. Adlewyrchu'r ddyletswydd newydd o'r Bil ar gyrff perthnasol i hybu ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr

Mae'r Cod drafft yn adlewyrchu'r ddyletswydd newydd fel y'i nodir yn y Bil i gyrff perthnasol hybu ymwybyddiaeth o'r Cod, fel bod dioddefwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y system. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Hawl 3 – 'cael gwybodaeth wrth riportio trosedd' a fydd yn sicrhau y gellir ymgorffori trosolwg o gyflawni'r ddyletswydd hon yn fframwaith cydymffurfio'r Cod newydd a fydd yn cael ei roi ar waith gan y Bil.

### 5. Adlewyrchu dyletswydd newydd y Bil ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i barhau i adolygu cydymffurfiaeth

Mae'r Cod drafft yn adlewyrchu'r ddyletswydd newydd fel y'i hamlinellir yn y Bil i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu barhau i adolygu

cydymffurfiaeth â'r Cod yn eu hardal leol. Cynhwysir hyn yn yr adran o'r cyflwyniad sy'n nodi 'rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'.

## 6. Gosod gofyniad newydd i'r CPS gwrdd â dioddefwyr mewn achosion penodol

Mae'r Cod drafft yn nodi darpariaeth newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) gynnig cwrdd ag oedolion sy'n ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill unwaith y bydd yn hysbys bod achos yn mynd ymlaen i dreial. Adlewyrchir hyn yn Hawl 8 – 'i gael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst'.

Mae'r mesur wedi'i dargedu at gefnogi'r grŵp hwn o ddioddefwyr, gan y gwyddom fod llawer yn tynnu'n ôl cyn i'r achos gyrraedd y llys hyd yn oed. Bydd gwell cyfathrebu â'r CPS yn helpu rhoi hyder iddynt fynychu'r llys, drwy drafod eu pryderon ynghylch rhoi tystiolaeth a thrwy egluro mynediad at fesurau arbennig sydd ar gael i'w cefnogi.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r CPS a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i ddatblygu'r manylion gweithredol ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Rydym yn cydnabod y gallai cyfarfodydd fod o fudd i eraill. Rydym yn agored i ystyried ehangu i grwpiau bregus eraill yn y dyfodol, yn amodol ar ganlyniadau gwerthusiad gofalus o sut mae'r cynnig hwn yn gweithio i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill.

## 7. Cryfhau lleisiau dioddefwyr mewn achosion

- Rydym wedi ychwanegu arwydd o'r gwaith parhaus gyda'r farnwriaeth i gyflwyno hawl ychwanegol i ddioddefwyr sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (sy'n cynnwys dioddefwyr troseddau rhywiol a threisgar) i allu cyflwyno **Datganiad Personol Dioddefwr i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl.**[3] Byddai hyn yn berthnasol mewn achosion lle mae rhyddhau'r troseddwr sy'n cael ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei ystyried, er mwyn rhoi cyfle i ddioddefwyr egluro effaith y drosedd arnynt. Byddai'n dod â hawliau dioddefwyr yn debycach i'r rhai ym mhroses y Bwrdd Parôl. Er bod y polisi hwn yn fater i'r llywodraeth, mae drafftio rheolau i wneud i hyn weithio'n ymarferol yn fater i'r Pwyllgor Gweithdrefn Tribiwnlysoedd annibynnol.

[3] Mae tribiwnlysoedd sy'n arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru'n unig wedi'u datganoli, sy'n cynnwys Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a fydd yr elfen hon o'r cod yn gymwys yng Nghymru.

Rydym wedi nodi lle bydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar gyfer ymgynghoriad yn y dyfodol, o dan Hawl 7 – ‘i wneud Datganiad Personol Dioddefwr’ a Hawl 11 – ‘i gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn’.

- Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth am **Ddatganiadau Effaith Cymunedol** at y Cod drafft o dan Hawl 7 - ‘i wneud Datganiad Personol Dioddefwr’. Mae hyn yn arwydd o'r wybodaeth y gallem ei chynnwys i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhain a sut y gellir eu defnyddio. Rydym yn cynnal ymchwil i ddeall yn well sut y gellir eu defnyddio yn fwyaf effeithiol, yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i wneud hynny er mwyn nodi pa wybodaeth a allai fod yn fwyaf defnyddiol a sut y gallem gefnogi unrhyw hyrwyddo pellach o’u defnydd.
- Rydym wedi ychwanegu rhagor o fanylion am y cynlluniau **Hawl Dioddefwyr i Adolygiad** at y Cod drafft o dan Hawl 6 – ‘i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a’r erlyniad’ – ac wedi gwneud yn glir bod rhaid i’r heddlu a’r CPS ddarparu gwybodaeth am sut mae’r cynlluniau’n gweithredu a'r canlyniadau posibl. Mae hyn yn ymateb i geisiadau am eglurder pellach yn y maes hwn.
- Rydym wedi diweddaru Hawl 6 – ‘i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a’r erlyniad’ – i ddangos y gall dioddefwyr roi eu barn ar amodau i’w gosod ar rywun dan amheuaeth sy’n cael ei ryddhau ar **fechnïaeth cyn cyhuddo** (yn unol â Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022).

## 8. Adlewyrchu newidiadau mewn achosion parôl

Rydym wedi adlewyrchu newidiadau i Reolau a mesurau’r Bwrdd Parôl yn y Bil, sy’n ehangu hawliau dioddefwyr yn y broses barôl. Mae hyn yn Hawl 11 – ‘i dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn’. Bydd y mesurau hyn yn caniatáu i ddioddefwyr:

- gwneud cyflwyniadau i'r Bwrdd Parôl;
- gwneud cais i’r Bwrdd Parôl i’r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus, a
- cael eu barn wedi’i chyflwyno i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) a’r Bwrdd Parôl os bydd rhywun arall yn gwneud cais am wrandawiad cyhoeddus.

## 9. Adlewyrchu diweddariadau preifatrwydd data

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am hawliau dioddefwyr o ran echdynnu digidol o wybodaeth bersonol dioddefwyr o'u dyfeisiau electronig (megis ffonau symudol). Mae hyn wedi'i ychwanegu at adran y cyflwyniad. Mae hyn yn egluro mai dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad y gall yr heddlu ei chymryd, a phan wneir cais am wybodaeth, rhaid hysbysu dioddefwyr ynghylch pa wybodaeth y gofynnir amdani a pham, sut y caiff ei defnyddio, a rhaid dweud wrthynt am eu hawl i beidio â chytuno i'w throsglwyddo. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau deddfwriaethol newydd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.

Bydd y Llywodraeth yn deddfu i sicrhau bod ceisiadau'r heddlu am ddeunydd trydydd parti am ddioddefwyr yn gymesur ac yn briodol i ymchwiliad. Gall deunydd trydydd parti gynnwys gwybodaeth bersonol, megis cofnodion addysg, ffeiliau meddygol, cofnodion awdurdod lleol, neu nodiadau cwnsela. Byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod y Cod newydd yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau hyn.

## 10. Diweddariadau eraill

Rydym wedi diweddaru adran 2.8 (o dan Hawl 2 – i gael manylion y drosedd wedi'u cofnodi heb oedi anghyfiawn') yn y Cod i'w gwneud yn glir y gall dioddefwyr ofyn am gyfwelydd heddlu o'r 'rhyw' o'u dewis, yn hytrach na'r 'rhywedd'. Nid yw hwn yn newid polisi ond mae'n egluro camddealltwriaeth y gallai dioddefwyr fod wedi'u hatal rhag mynegi dewis mewn perthynas â rhyw biolegol eu cyfwelydd.

Rydym wedi ehangu'r enghreifftiau o fathau o wasanaethau cymorth y gall dioddefwyr eu cyrchu o dan Hawl 4 – 'i gael mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra i'ch anghenion'. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd sector cymorth amrywiol sy'n hanfodol i helpu diwallu anghenion amrywiol dioddefwyr.

Rydym hefyd wedi gwneud gwelliant technegol i adlewyrchu'n well y cymhwysedd ar gyfer cymorth gan y Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Lladdiadau sydd ar gael pan fydd llofruddiaeth neu ddynladdiad wedi digwydd.

## Newidiadau i’w cynnwys yn ein hymgynghoriad ar y Cod Dioddefwyr newydd

Fel y nodir uchod, byddwn yn ymgynghori ar God Dioddefwyr newydd cyn gosod fersiwn terfynol gerbron y Senedd. Y drafft presennol yw ein man cychwyn ar gyfer y newidiadau hyn. Rydym yn agored i faterion a fydd yn cael eu codi yn ystod taith y Bil, ac mae rhai meysydd penodol eisoes rydym yn bwriadu ymgynghori arnynt ar gyfer ystyried newidiadau pellach. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Prosesau cyfweld yr heddlu.** Byddwn yn ystyried sut i adlewyrchu disgresiwn gweithredol wrth hwyluso ceisiadau dioddefwyr am gyfwelydd o’r rhyw o’u dewis, lle gallai hyn gyfyngu ar effeithiolrwydd ymchwiliad yr heddlu.

- **Mesurau yn ymwneud â phreifatrwydd data.** Byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod y Cod newydd yn adlewyrchu’r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn, gan gynnwys a fyddai’n ddefnyddiol cael adran benodol sy’n ymdrin â hawliau dioddefwyr mewn perthynas â phreifatrwydd data.

- **Adlewyrchu anghenion arbennig plant.** Byddwn yn ystyried sut mae hawliau’r Cod yn mynd i’r afael yn benodol ag anghenion plant, gan gynnwys lle y gallwn gryfhau hyn i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi’n effeithiol drwy’r broses cyfiawnder troseddol.

- **Gwybodaeth yn ymwneud â Datganiadau Personol Dioddefwyr.** Byddwn yn ystyried a oes cyfleoedd i fod yn gliriach ynghylch y defnydd o Ddatganiadau Personol Dioddefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau, Comisiynwyr, a phartïon eraill sydd â buddiant i ddeall beth y gellid ei gryfhau ymhellach yn y Cod cyn ymgynghori a gosod fersiwn terfynol gerbron y Senedd.

Ministry of Justice

**Y Cod Ymarfer Drafft Dangosol ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr**
Drafft Mehefin 2023

Ministry of Justice

**Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr**

**DRAFFT**

DRAFFT

DRAFT

# Crynodeb o Hawliau Dioddefwyr

### Hawl 1: I allu deall a chael eich deall

Mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall a chael cymorth i helpu cael eich deall, gan gynnwys, mynediad at wasanaethau dehongli a chyfieithu, lle bo angen.

### Hawl 2: I gael cofnodi manylion y drosedd heb oedi digyfiawnhad

Mae gennych **Hawl** i gael cofnodi manylion y drosedd gan yr heddlu cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Os oes angen i chi ddarparu datganiad tyst neu gael eich cyfweld, mae gennych **Hawl** i dderbyn cymorth ychwanegol i'ch cynorthwyo drwy'r broses hon.

### Hawl 3: I dderbyn gwybodaeth pan ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd

Mae gennych **Hawl** i dderbyn cadarnhad ysgrifenedig wrth adrodd am y drosedd, derbyn gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a chael gwybod am raglenni neu wasanaethau i ddioddefwyr. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau lle gallwch gwrdd â'r sawl sydd dan amheuaeth neu'r troseddwr, gelwir hyn yn Gyfiawnder Adferol.

### Hawl 4: I gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i'ch anghenion

Mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr, sy'n cynnwys yr **Hawl** i gysylltu â nhw yn uniongyrchol, ac i gael asesiad o'ch anghenion fel y gall gwasanaethau a chymorth gael eu teilwra i ddiwallu eich anghenion. Os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig atgyfeiriad at wasanaethau cymorth arbenigol a chael gwybod am gymorth ychwanegol sydd ar gael yn y llys, er enghraifft mesurau arbennig.

### Hawl 5: I dderbyn gwybodaeth am iawndal

Lle'r ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod sut i hawlio iawndal am unrhyw golled, difrod neu anaf a achoswyd o ganlyniad i drosedd.

### Hawl 6: I dderbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad

Mae gennych **Hawl** i gael diweddariadau ar eich achos a chael gwybod pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu cymryd. Mae gennych **Hawl** hefyd, ar gamau penodol o'r broses gyfiawnder, i ofyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol ailedrych ar y penderfyniadau eto.

### Hawl 7: I wneud datganiad personol dioddefwr

Mae gennych **Hawl** i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, sy'n dweud wrth y llys sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch, ac a gaiff ei ystyried wrth ddedfrydu'r troseddwr. Byddwch yn cael gwybodaeth am y broses.

### Hawl 8: I dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod am amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad a chanlyniad y gwrandawiadau hynny yn brydlon. Os bydd angen i chi roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i gael cynnig help priodol cyn y treial a, lle bo'n bosibl, os yw'r llys yn caniatáu, i gyfarfod gyda'r erlynydd cyn rhoi tystiolaeth.

### Hawl 9: I dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau

DRAFT

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod am ganlyniad yr achos ac, os yw'r diffynnydd yn euog, i dderbyn eglurhad o'r ddedfryd. Os bydd y troseddwr yn apelio yn erbyn eu heuogfarn neu ddedfryd, mae gennych **Hawl** i gael gwybod am yr apêl a'i chanlyniad.

**Hawl 10: I dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl**

Os oes gofyn i chi fynychu llys a rhoi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio treuliau penodol. Os cymerwyd unrhyw eiddo oddi arnoch fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted â phosibl.

**Hawl 11: I dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn**

Lle mae'n gymwys, mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio'n awtomatig at y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, a fydd yn darparu gwybodaeth i chi

DRAFFT

## Cynnwys

Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr

Cyflwyniad

Pwy sy’n ‘ddioddefwr’ dan y Cod hwn?

Pa Hawliau sy’n berthnasol i chi?

Pwy sy'n gyfrifol am gyflenwi'r Hawliau dan y Cod hwn?

Rhagor o wybodaeth ddefnyddiol

Hawl 1: I allu deall a chael eich deall

Hawl 2: I gael cofnodi manylion y drosedd heb oedi digyfiawnhad

Hawl 3: I dderbyn gwybodaeth pan ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd

Hawl 4: I gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy’n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i’ch anghenion

Hawl 5: I dderbyn gwybodaeth am iawndal

Hawl 6: I dderbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a’r erlyniad

Hawl 7: I wneud Datganiad Personol Dioddefwr

Hawl 8: I dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a’ch rôl fel tyst

Hawl 9: I dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau

Hawl 10: I dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl

Hawl 11: I dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn

Hawl 12: I wneud cwyn am Hawliau sydd heb eu diwallu

DRAFT

DRAFT

DRAFT

DRAFT

Cyflwyniad

**Beth yw’r Cod Dioddefwyr?**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau[1] (y Cod Dioddefwyr) yn nodi'r gwasanaethau a'r safon ofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn y mae'n rhaid ei darparu i ddioddefwyr troseddau gan sefydliadau (y cyfeirir atynt fel darparwyr gwasanaethau) yng Nghymru a Lloegr.

Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith i’r Cod Dioddefwyr[2] gynnwys gwasanaethau sy’n diwallu’r pedair egwyddor gyffredinol ganlynol. Nod yr Hawliau a eglurir yn y ddogfen hon yw cyflawni uchelgais yr egwyddorion hyn.

| **Egwyddor y cod** | **Hawliau Perthnasol y Cod** |
|---|---|
| Dylid rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr i’w helpu i ddeall y broses cyfiawnder troseddol | • Hawl 1: i allu deall a chael eich deall<br>• Hawl 3: i gael gwybodaeth wrth riportio’r drosedd<br>• Hawl 5: i gael gwybodaeth am iawndal<br>• Hawl 6: i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad<br>• Hawl 8: i dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a’ch rôl fel tyst<br>• Hawl 9: i dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau<br>• Hawl 11: i dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn |
| Dylai dioddefwyr allu cyrchu gwasanaethau sy’n eu cefnogi (gan gynnwys, lle bo’n briodol, gwasanaethau arbenigol) | • Hawl 4: i gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr ac sydd â gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra i'ch anghenion |
| Dylai dioddefwyr gael y cyfle i leisio eu barn yn y broses cyfiawnder troseddol | • Hawl 2: i fanylion y drosedd gael eu cofnodi heb oedi na ellir ei gyfiawnhau<br>• Hawl 7: i wneud Datganiad Personol Dioddefwr<br>• Hawl 10: i dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl |
| Dylai dioddefwyr allu herio penderfyniadau sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt | • Hawl 6: i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad<br>• Hawl 12: i wneud cwyn am Hawliau sydd heb eu diwallu |

DRAFT

[1] Cyhoeddir y Cod Dioddefwyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan adran 2 o’r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion [I'w Gadarnhau] ac mae’n cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau Cod Ymarfer Dioddefwyr.

[2] Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion I'w Gadarnhau

## Pwy sy'n 'ddioddefwr' dan y Cod hwn?

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod y termau 'achwynydd' a 'goroeswr' yn cael eu defnyddio'n aml yn y system cyfiawnder troseddol i ddisgrifio person sydd wedi gwneud honiad troseddol i'r heddlu. Fodd bynnag, at ddibenion y Cod hwn, y diffiniad o 'ddioddefwr' yw:*

- *person sydd wedi dioddef niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd*
- *perthynas agos (neu lefarydd teulu enwebedig) y person yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.*

*Gallwch hefyd dderbyn Hawliau dan y Cod hwn os ydych yn:*

- *rhiant neu warcheidwad y dioddefwr os yw o dan 18 oed neu*
- *llefarydd teulu enwebedig os oes gan y dioddefwr nam meddyliol neu os ydynt wedi cael eu hanafu mor ddrwg oherwydd trosedd hyd nes nad ydynt yn gallu cyfathrebu neu nid oes ganddynt y gallu i wneud hynny.*

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod y termau 'achwynydd' a 'goroeswr' yn cael eu defnyddio'n aml yn y system cyfiawnder troseddol i ddisgrifio person sydd wedi gwneud honiad troseddol i'r heddlu. Fodd bynnag, at ddiben y Cod hwn, fe'ch ystyrir yn 'ddioddefwr'[3] os ydych wedi dioddef niwed (gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu golled economaidd) sydd wedi'i achosi'n uniongyrchol gan:

- bod yn destun ymddygiad troseddol;
- tystio (a ddisgrifir fel gweld, clywed neu fel arall yn profi effeithiau) ymddygiad troseddol;
- bod yn aelod agos o deulu[4] person yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan ymddygiad troseddol;
- cael eich geni o ganlyniad i dreisio neu ymddygiad troseddol arall a achosodd feichiogrwydd yn uniongyrchol;
- bod o dan 18 oed a gweld, clywed, neu brofi effeithiau cam-drin domestig, lle mae'r person sy'n cael ei gam-drin neu'n cyflawni'r cam-drin yn perthyn i chi neu â chyfrifoldeb rhiant amdanoch.[5]

Mae'r term 'ymddygiad troseddol' yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen i chi fod wedi riportio'ch trosedd i'r heddlu i gael eich ystyried yn ddioddefwr trosedd. Mae rhai o'r Hawliau o dan y Cod hwn yn berthnasol i chi waeth beth fo'ch cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, os ydych wedi dioddef niwed o ganlyniad i fod yn dyst i drosedd, rydych yn ddioddefwr trosedd at ddibenion y Cod hwn ac yn gallu cyrchu gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr. Nid oes angen i chi fod wedi darparu datganiad i'r heddlu neu wedi'ch cyfweld gan

[3] Gall personau cyfreithiol (e.e. busnesau neu fentrau eraill megis elusennau) dderbyn gwasanaethau perthnasol yn y Cod hwn a gwneud datganiad effaith os yw trosedd wedi'i chyflawni yn eu herbyn, yn amodol ar ddarparu pwynt cyswllt penodol i'r darparwr gwasanaeth perthnasol. Rhagor o wybodaeth am sut i wneud Datganiad Effaith ar gyfer Busnes↩

[4] Mae hyn fel arfer yn cyfeirio at y priod, y partner, y perthnasau mewn llinell uniongyrchol, y gwarcheidwaid, y brodyr a chwiorydd a dibynyddion y dioddefwr. Gallai aelodau eraill o'r teulu, megis gofalwyr, gael eu hystyried yn aelodau agos o'r teulu yn ôl disgresiwn y darparwr gwasanaeth.

[5] Fel y'i diffinnir yn adran 3 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig 2022

yr heddlu, neu orfod mynychu llys fel tyst.[6]

Gallwch hefyd dderbyn **Hawliau** dan y Cod hwn os ydych yn:

- rhiant neu warcheidwad y dioddefwr os yw o dan 18 oed[7] neu
- llefarydd teulu enwebedig eich perthynas sy'n ddioddefwr sydd â nam meddyliol neu sydd wedi'i anafu mor ddrwg oherwydd tramgwydd troseddol fel nad yw'n gallu cyfathrebu neu nad oes ganddo'r gallu i wneud hynny, neu
- llefarydd teulu enwebedig eich perthynas yr achoswyd ei farwolaeth gan ymddygiad troseddol.

**Statws preswylio**

Mae gennych **Hawl** i wasanaethau o dan y Cod hwn waeth beth fo'ch statws preswylio. Fodd bynnag, os cyflawnwyd y drosedd yng Nghymru neu Loegr, ond eich bod yn byw yn rhywle arall, dylech gael mynediad at wasanaethau cymorth lle'r ydych yn byw. Os gofynnir i chi roi tystiolaeth mewn llys yng Nghymru neu Loegr, byddwch yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth tra'r ydych yng Nghymru neu Loegr.

**Teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth[8] oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad dramor**

Dylai teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad gwladolyn Prydeinig a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig gysylltu â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Maent yn darparu cymorth a gwybodaeth ynglŷn â phrosesau yn y wlad lle digwyddodd y drosedd, gan gynnwys dychwelyd yr ymadawedig. Efallai y gallent hefyd gyfeirio teulu'r ymadawedig at wasanaethau cymorth arbenigol. Ceir rhagor o wybodaeth drwy ffonio: **020 7008 5000**[9] neu yn: **www.gov.uk/government/publications/helping-british-people-abroad-murder-and-manslaughter**

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i helpu egluro rôl yr FCDO, yr heddlu a chrwneriaid yng Nghymru a Lloegr pan yw gwladolyn Prydeinig yn ddioddefwr llofruddiaeth, dynladdiad neu fabanladdiad dramor. Mae'r Memorandwm yn canolbwyntio ar yr ymadawedig a'u teulu ac yn egluro pa fath o gymorth sydd ar gael.

Pa Hawliau sy'n berthnasol i chi?

DRAFT

[6] Gellir cyrchu gwasanaethau y gellir eu derbyn mewn perthynas â rhoi tystiolaeth fel "tyst" mewn achosion troseddol o dan y Siarter Tystion,[6] yn hytrach nag o dan y Cod hwn.

[7] Oni bai fod y rhiant neu warcheidwad yn destun ymchwiliad neu wedi cael ei gyhuddo gan yr heddlu mewn cysylltiad â'r drosedd neu os ym marn resymol y darparwr gwasanaeth dan sylw nad yw er lles y dioddefwr i'ch rhiant neu warcheidwad dderbyn gwasanaethau o'r fath.↩

[8] Mae hyn yn cyfeirio at briod, partner, perthnasau mewn llinell uniongyrchol, brodyr a chwiorydd a dibynyddion y dioddefwr. Gall aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr, gael eu hystyried yn berthnasau agos yn ôl disgresiwn yr FCDO.

[9] Ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Os nad ydych yn y DU, gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y llysgenhadaeth, yr uchel gomisiwn neu'r is-genhadaeth Brydeinig agosaf ar-lein yn: https://www.gov.uk/world/embassies

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Bydd pa Hawliau sy'n berthnasol i chi yn dibynnu ar a adroddwyd wrth yr heddlu am y drosedd, os yw'r achos yn mynd i'r llys, ac a yw'r diffynnydd yn cael ei euogfarnu, yn ogystal â'ch anghenion a'ch amgylchiadau personol. Mae Hawliau 1, 4 a 12 yn berthnasol i bob dioddefwr. Dim ond pan fo'r drosedd wedi ei hadrodd i'r heddlu y mae'r Hawliau eraill yn berthnasol. Bydd y darparwr gwasanaeth perthnasol yn dweud wrthych pa Hawliau sy'n berthnasol i'ch achos.*

***Cymorth i dystion:*** *Os ydych wedi dioddef niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd, o ganlyniad uniongyrchol i fod yn dyst i drosedd, rydych yn ddioddefwr trosedd at ddibenion y Cod hwn a gallwch gael mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr. Nid oes angen i chi fod wedi darparu datganiad i'r heddlu neu wedi eich cyfweld gan yr heddlu, neu orfod mynychu llys fel tyst. Gall pob tyst arall gael mynediad at wasanaethau a ddarperir dan y Siarter Tystion, yn hytrach nag o dan y Cod hwn.*

Bydd y darparwr gwasanaeth perthnasol yn dweud wrthych pa **Hawliau** sy'n berthnasol i'ch achos. Bydd hyn yn dibynnu a yw'r trosedd yn cael ei riportio i'r heddlu, a yw'r achos yn mynd i'r llys, ac a yw'r diffynnydd yn cael ei euogfarnu, yn ogystal â'ch anghenion a'ch amgylchiadau personol. Mae **Hawliau 1**, **4** a **12** yn berthnasol i **bob** dioddefwr, er bod Hawl 4 ond yn berthnasol i **bob** dioddefwr mewn perthynas â'r hawl i gael mynediad at wasanaethau cymorth a chysylltu â nhw'n uniongyrchol, yn hytrach na'r hawl i gael eu hatgyfeirio atynt gan yr heddlu; lle mae hyn yn cynnwys proses atgyfeirio'r heddlu, gall hyn fod yn wahanol (er enghraifft, efallai na fydd y rhai sy'n cael eu niweidio o ganlyniad i fod yn dyst i drosedd yn rhan o broses atgyfeirio'r heddlu lle mae hyn yn cynnwys asesiadau o anghenion).

Dim ond pan fo'r drosedd wedi ei hadrodd i'r heddlu y mae'r **Hawliau** eraill yn berthnasol a gallai fod yn berthnasol yn wahanol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau a'ch gwnaeth yn ddioddefwr a'r angen i asiantaethau weithredu disgresiwn mewn achosion. Dylech dderbyn yr hawliau hyn oni bai fod rheswm da dros beidio, ac os felly bydd angen i asiantaethau egluro hynny i chi. Er enghraifft, er y bydd asiantaethau bob amser yn ystyried yn ofalus gyda phwy y gallant rannu gwybodaeth achos, efallai y bydd rhai amgylchiadau lle na allant rannu hyn gyda chi.

**Hawliau Estynedig**

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod dioddefwyr a ystyrir yn agored i niwed neu wedi eu bygwth, yn ddioddefwr y drosedd fwyaf difrifol (gan gynnwys perthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth), neu sydd wedi eu targedu dro ar ôl tro yn fwy tebygol o fod angen mwy o gymorth arbenigol (efallai y bydd rhai dioddefwyr yn perthyn i neu fwy o'r categorïau hyn). Gall cefnogaeth o'r fath gynnwys cael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth arbenigol, y gwneir cyswllt â nhw ynghynt ar ôl penderfyniadau allweddol, a chael mynediad at fesurau arbennig (gweler* ***Hawl 4****) O fewn pob* ***Hawl*** *unigol, amlyga'r Cod hwn lle mae* ***Hawliau Estynedig*** *o'r fath yn berthnasol.*

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod rhai dioddefwyr (a nodir isod) yn fwy tebygol o fod angen cymorth arbenigol. Gall cefnogaeth o'r fath gynnwys cael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth arbenigol, y gwneir cyswllt â nhw ynghynt ar ôl penderfyniadau allweddol, a chael mynediad at fesurau arbennig (gweler **Hawl 4**). O fewn pob **Hawl** unigol mae'r Cod hwn yn amlygu lle mae **Hawliau Estynedig** o'r fath yn berthnasol.

Unwaith mae'r darparwr gwasanaeth wedi nodi eich bod yn gymwys i **Hawliau Estynedig,** mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i ddarparwyr gwasanaethau eraill

sydd â chyfrifoldebau dan y Cod hwn a, lle bo'n briodol, i wasanaethau sy’n cefnogi dioddefwyr.

Os nad ydych yn syrthio o fewn y categorïau a amlinellir isod, efallai y bydd darparwr gwasanaeth yn penderfynu darparu mynediad i **Hawliau Estynedig** penodol yn dibynnu ar eich amgylchiadau neu effaith y drosedd.

### Dioddefwyr agored i niwed neu sydd wedi eu bygwth

Rydych yn gymwys i **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn fel dioddefwr sy'n agored i niwed[10] os:

- ydych chi o dan 18 oed ar adeg y drosedd[11], neu
- bod ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio oherwydd:

    - eich bod yn dioddef o anhwylder meddyliol yn unol ag ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
    - fel arall â nam sylweddol o ran deallusrwydd a gweithredu cymdeithasol; neu
    - gydag anabledd corfforol neu’n dioddef o anhwylder corfforol.

Rydych hefyd yn gymwys i Hawliau Estynedig o dan y Cod hwn fel dioddefwr sydd wedi ei fygwth os yw'r darparwr gwasanaeth yn ystyried y bydd ansawdd eich tystiolaeth yn cael ei effeithio oherwydd eich ofn a gofid am roi tystiolaeth yn y llys[12].

Wrth asesu a yw dioddefwr wedi ei fygwth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried:

- yr ymddygiad tuag at y dioddefwr ar ran y sawl sydd dan amheuaeth, aelodau o'u teulu neu eu cydnabod, neu unrhyw berson arall sy'n debygol o fod yn rhywun dan amheuaeth neu’n dyst yn yr achos;
- oedran y dioddefwr;
- os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol y dioddefwr, ei gredoau crefyddol neu farn wleidyddol, tarddiad ethnig, amgylchiadau domestig a chyflogaeth;
- natur ac amgylchiadau honedig y drosedd y mae'r achos yn ymwneud â hi (bydd dioddefwyr trosedd rywiol neu fasnachu mewn pobl yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi eu bygwth); ac
- unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr.

### Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol

> ***TESTUN GWREIDDIOL:** Rydych yn gymwys i Hawliau Estynedig o dan y Cod hwn fel dioddefwr y drosedd fwyaf difrifol os ydych yn berthynas agos wedi dioddef profedigaeth oherwydd trosedd, wedi dioddef cam-drin domestig, trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, caethwasiaeth fodern, ymgais i lofruddio, herwgipio, carcharu ar gam, llosgi bwriadol gyda'r bwriad o beryglu bywyd, ac anafu neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol.*

Rydych yn gymwys ar gyfer **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn fel dioddefwr y trosedd mwyaf difrifol, os ydych yn aelod agos o’r teulu sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol neu’n ddioddefwr sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig, trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, caethwasiaeth fodern, ceisio llofruddio, herwgipio, cam-garcharu, llosgi bwriadol â'r bwriad o beryglu bywyd a chlwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol.

---

[10] Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf yn adran 16 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA), i'r llys bennu cymhwyster am fesurau arbennig.

[11] Am **Hawliau Estynedig** cyffredinol o dan y Cod hwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig o dan adran 16 o YJCEA, rhaid i chi fod o dan 18 oed ar adeg y gwrandawiad.

[12] Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf cymhwyster ar gyfer mesurau arbennig yn adran 17 o'r YJCEA.

DRAFT

Mae **Hawliau Estynedig** ychwanegol sydd ar gael i aelodau teulu mewn profedigaeth yn cael eu hamlygu ar wahân ym mhob **Hawl** unigol yn y Cod hwn.

**Dioddefwyr a dargedwyd yn gyson**

Rydych yn gymwys i **Hawliau Estynedig** o dan y Cod hwn fel dioddefwr a dargedwyd yn gyson os ydych wedi cael eich targedu dro ar ôl tro fel dioddefwr uniongyrchol o drosedd dros gyfnod o amser, yn enwedig os ydych wedi cael eich targedu yn fwriadol neu os ydych yn dioddef o ymgyrch barhaus o aflonyddu neu stelcio.

DRAFFT

Pwy sy'n gyfrifol am gyflenwi'r Hawliau dan y Cod hwn?

Mae'n ofynnol i'r sefydliadau canlynol gyflenwi'r **Hawliau** dan y Cod hwn fel darparwyr gwasanaeth:

- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
- Pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Unedau Gofal Tystion yr Heddlu[13]
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'i asiantaethau gweithredol gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf
- Y Bwrdd Parôl ar gyfer Cymru a Lloegr
- Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol
- Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig
- Timau Troseddau Ieuenctid

Dan y Cod hwn, bydd rhai dioddefwyr yn derbyn eu **Hawliau** drwy gyfuniad o'r darparwyr gwasanaethau a restrir uchod a darparwyr gwasanaethau eraill, yn cynnwys:

- Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (Gorfodaeth Droseddol)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Y Comisiwn Hapchwarae
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

- Y Swyddfa Gartref (Gorfodi Mewnfudo)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd
- Y Swyddfa Twyll Difrifol

DRAFT

[1313] Uned Gofal Tystion yw'r enw generig i ddisgrifio swyddogaeth a arweinir gan yr heddlu sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion mewn achosion sy'n symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. Gall yr uned hon fod dan enw arall yn eich ardal leol. Bydd yr heddlu yn dweud wrthych beth yw enw'r uned sy'n cyflenwi'r hawliau a neilltuwyd i'r Uned Gofal Tystion yn y Cod hwn.

Wrth gyflwyno'r Cod Dioddefwyr, mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth fod â buddiannau pennaf y dioddefwr fel eu prif ystyriaeth ac ystyried oedran, aeddfedrwydd, safbwyntiau, anghenion a phryderon y dioddefwr yn llawn.

Gall darparwyr gwasanaethau eraill hefyd gael rôl mewn perthynas ag ymchwilio i droseddau a/neu erlyn troseddau[14]. Fodd bynnag, yn wahanol i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd â chylch gorchwyl eang i ymchwilio ac erlyn troseddau, mae'r darparwyr gwasanaethau hyn wedi eu cyfyngu i ymchwilio ac erlyn mathau penodol o droseddau a gyflawnwyd o dan amgylchiadau penodol. Bydd hyn yn penderfynu ar y ffyrdd y maent yn dod i gysylltiad â dioddefwyr, ac amlder y cysylltiadau hynny.

Dim ond lle mae darparwyr gwasanaethau eraill (megis y rheiny a restrir uchod) yn derbyn cyfrifoldeb ffurfiol am gynnal ymchwiliad troseddol neu wneud penderfyniad i erlyn y mae'r **Hawliau** yn y Cod hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw pob swyddogaeth a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaeth eraill yn union yr un fath â'r rhai a gyflawnir gan yr heddlu a'r CPS. Lle mae swyddogaethau yn berthnasol i ddarparwr gwasanaeth dan y Cod hwn (er enghraifft mae'r darparwr gwasanaeth arall yn ymchwilio neu erlyn trosedd honedig), rhaid iddynt gyflenwi'r un **Hawliau** heb oedi digyfiawnhad, p'un a restrir y darparwr gwasanaeth arall uchod ai peidio.

### Rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[15]

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol yn lleol i sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol. Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd gyfreithiol i barhau i adolygu cydymffurfiaeth â'r Cod yn eu hardal leol. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â dioddefwyr wrth osod y blaenoriaethau plismona yn eu hardal ac i ddwyn Prif Gwnstabl yr heddlu yn eu hardal i gyfrif. Maent yn gyfrifol am gomisiynu nifer o'r gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a amlinellir yn y Cod hwn.

### Rôl y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion (Comisiynydd Dioddefwyr)

Nid yw'r Comisiynydd Dioddefwyr yn cael ei restru fel darparwr gwasanaeth dan y Cod hwn. Mae hyn oherwydd bod gan y Comisiynydd Dioddefwyr ddyletswydd statudol i gadw'r Cod hwn dan adolygiad rheolaidd.[16] Mae'n rhan o rôl y Comisiynydd i wrando ar farn dioddefwyr, deall y system cyfiawnder troseddol o safbwynt y dioddefwyr, a cheisio helpu i wella'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Ni all y Comisiynydd Dioddefwyr helpu ag achosion unigol na herio asiantaethau cyfiawnder troseddol i wneud penderfyniadau gwahanol.

### Crwneriaid

Nid yw crwneriaid wedi eu cynnwys fel darparwyr gwasanaethau dan y Cod hwn. Mae hyn oherwydd nad yw cwestau yn weithdrefnau troseddol ac mae gan aelodau teuluoedd mewn profedigaeth statws person â diddordeb mewn cwestau eisoes, sy'n rhoi hawliau statudol penodol iddynt. Mae hyn yn cynnwys hawl i ofyn cwestiynau perthnasol i dystion a derbyn datgeliad o ddogfennau a thystiolaeth arall. Yn lle hynny, dylai aelodau teulu profedigaethus dioddefwr trosedd sy'n rhan o gwest ymgynghori â'r canllawiau ar ymchwiliadau crwneriaid ar gyfer pobl brofedigaethus sydd ar gael ar: **www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide**

[14] Dim ond i'r graddau lle mae'r darparwr gwasanaeth wedi derbyn cyfrifoldeb yn ffurfiol am gynnal ymchwiliad troseddol i'r drosedd neu wedi derbyn cyfrifoldeb yn ffurfiol am wneud penderfyniad i erlyn y drosedd hon y mae hyn yn berthnasol.

[15] Mae pob cyfeiriad at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) yn seiliedig ar adran 101 o Ddeddf yr Heddlu 1995 ac yn cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu; Comisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddu; Meiri sy'n arfer swyddogaeth PCC a chyfatebol; a MOPAC

[16] Adran 49(1)(c) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2023



DRAFT

## Rhagor o wybodaeth ddefnyddiol

### Sut allaf sicrhau fy mod yn derbyn y gwasanaeth gorau?

Bydd darparwyr gwasanaethau yn ceisio lleihau'r nifer o wahanol bobl yr ydych yn dod i gysylltiad â nhw drwy gydol eich achos, a lle bo'n bosibl, cynnig pwynt cyswllt unigol i chi ar gyfer gwybodaeth. I'w helpu i gyflenwi eich **Hawliau** dan y Cod hwn, dylech:

- roi gwybod iddynt os yw eich manylion cyswllt neu ddewisiadau yn newid;
- gofyn cwestiynau iddynt os ydych yn ansicr am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'ch achos neu'r broses cyfiawnder troseddol; a
- rhoi eich barn i ddarparwyr gwasanaethau ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w helpu i ddarparu a theilwra gwasanaeth o safon uchel.

### Sut allaf ddisgwyl cael fy nhrin?

Mae gennych **Hawl** i:

- gael eich trin gyda pharch, urddas, sensitifrwydd, tosturi a chwrteisi;
- gwneud dewisiadau gwybodus sy'n cael eu parchu'n llawn;
- Cael eich preifatrwydd wedi'i barchu gan ddarparwyr gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan ddeddfau diogelu data a deddfau ynghylch yr hyn y gall yr heddlu ei dynnu o'ch dyfeisiau personol[17] (megis ffôn symudol); a
- derbyn gwasanaethau i'ch helpu chi a'ch teulu i ddeall ac ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol ac sy'n cael eu cynnig mewn modd proffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.

### Cymorth i dystion

DRAFT

[17] Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (adran 37) yn golygu y gall yr heddlu ofyn am gael tynnu gwybodaeth o'ch dyfais ddigidol ond dim ond gyda'ch cytundeb yn y rhan fwyaf o achosion y gallant wneud hyn; rhaid iddynt hefyd ystyried ffyrdd llai ymwthiol o gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn gyntaf, a dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur â'u hymchwiliad y dylent ofyn am wybodaeth.

**Eich Hawl i gael eich diogelu**

Mae gennych **Hawl** i gael eich diogelu rhag ail-erledigaeth, cael eich bygwth neu ddioddef dialedd yn ystod ac ar ôl yr ymchwiliad a gweithrediadau cyfreithiol. Os ydych yn pryderu am eich diogelwch uniongyrchol, dylech gysylltu â'r heddlu ar: **999.**

Yn y sefyllfa annhebygol bod y sawl dan amheuaeth (cyn-treial) neu'r troseddwr (yn dilyn euogfarn) yn dianc o'r ddalfa, bydd yr heddlu yn cysylltu â chi. Os asesir bod y sawl sydd dan amheuaeth neu'r troseddwr yn peri risg sylweddol o niwed i chi, byddant yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau eich diogelwch parhaus.

Os ydych yn derbyn cyswllt nas dymunir gan droseddwr yn y carchar, dylech gysylltu â'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi[18] ar: **0300 060 6699**[19] neu anfon e-bost at: victim.helpline@justice.gov.uk

Os ydych yn derbyn cyswllt nas dymunir gan droseddwr sydd ar drwydded yn y gymuned, gallwch gysylltu â'r heddlu, neu eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, os oes gennych un. Os yw'r troseddwr dan 18 oed, gallwch hefyd roi gwybod am unrhyw gyswllt nas dymunir i'r heddlu, ond os ydych yn gwybod eu bod yn cael eu goruchwylio gan Dîm Troseddau Ieuenctid, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â nhw'n uniongyrchol. Ceir manylion cyswllt ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid yn: www.gov.uk/government/collections/youth-offending-team-contact-details

**Gwybodaeth a ddarperir o dan y Cod hwn**

| |
|---|
| ***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. Rhaid i'r wybodaeth hon hefyd gyfeirio dioddefwyr at y tudalennau perthnasol ar: GOV.UK* |

Mae gennych **Hawl** i wybodaeth, gan gynnwys ar y Cod. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. Rhaid i'r wybodaeth hon hefyd gyfeirio dioddefwyr at y tudalennau perthnasol ar: GOV.UK Mae gan ddarparwyr penodedig hefyd ddyletswydd gyfreithiol i hybu ymwybyddiaeth o'r Cod y tu hwnt i'r wybodaeth a ddarperir ar wefannau. Gweler rhagor o wybodaeth o dan Hawl 3 a hefyd yn [canllawiau statudol sydd ar ddod].

Lle mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rannu gwybodaeth dan y Cod hwn, rhaid iddynt wneud hynny yn effeithiol ac yn unol â'u rhwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data a Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth berthnasol arall.

Lle mae nifer uchel o ddioddefwyr yn gysylltiedig ag achos, megis twyll buddsoddi ar raddfa fawr gyda dioddefwyr lluosog sy'n fuddsoddwyr, neu mewn achosion eithriadol eraill, gall y darparwr gwasanaeth gyfathrebu
gwybodaeth11 y mae gan ddioddefwr **Hawl** i'w chael o dan y Cod hwn drwy sianeli amgen, megis eu gwefan, yn hytrach na chysylltu â phob dioddefwr yn unigol

Nid oes dim yn y Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth i'r dioddefwr lle byddai ei datgelu:

[18] Rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi gynnal llinell gymorth ffôn (y Llinell Gymorth i Ddioddefwyr) i sicrhau bod gan ddioddefwyr rif i'w ffonio os ydynt yn cael cyswllt digroeso gan garcharor.

[19] Llun – Gwener, 9.00am – 4.00pm.



DRAFT

- yn gallu arwain at niwed i unrhyw berson;
- yn gallu effeithio ar ymdriniaeth briodol o unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad, neu a allai fel arall niweidio unrhyw achos sifil neu droseddol; neu weithdrefnau parôl; neu
- a fyddai, ym marn y darparwr gwasanaeth, yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.

**Beth os yw'r cyfryngau yn cysylltu â mi?**

Yn gyffredinol, gall newyddiadurwyr fynychu digwyddiadau sy'n digwydd yn y llys ac adrodd arnynt. Weithiau gall y cyfryngau gymryd diddordeb mewn achos a chysylltu â chi a/neu eich teulu am sylwadau. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i siarad â nhw. Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus nad ydych yn gwneud unrhyw beth sy'n peryglu dylanwadu'n annheg ar ganlyniad achos llys ac arwain at ddirmyg llys[20].

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech ychydig o gyngor, gallwch siarad gyda'r heddlu neu ddarparwr cymorth i ddioddefwyr. Fel arall, gallwch gysylltu â Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg drwy fynd i **www.ipso.co.uk**, a fydd yn siarad â chi am eich pryderon ac yn rhoi cyngor a chanllawiau ymarferol.

**Mynediad at gymorth meddygol**

Os ydych wedi dioddef trosedd a bod gennych anghenion iechyd corfforol neu feddyliol o ganlyniad, gallwch gael mynediad at wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Nid oes angen i chi fod wedi adrodd wrth yr heddlu am drosedd er mwyn cael mynediad at y gwasanaethau hyn.

Os bydd rhywun yn ddifrifol wael neu wedi'u hanafu, a bod eu bywyd mewn perygl, ffoniwch y gwasanaethau brys ar **999**. Os nad oes bygythiad i fywyd, mae nifer o opsiynau y gallwch eu cymryd. Gallwch:

- Ffonio **111** (GIG Lloegr) neu linell gymorth feddygol nad yw'n frys **0845 46 47** (GIG Cymru);
- mynd i'ch canolfan galw heibio GIG leol neu ganolfan gofal brys/uned mân anafiadau leol neu eich adran gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys leol; a/neu
- ymweld â neu ffonio eich Meddyg Teulu (MT), a all eich cyfeirio at wasanaethau arbenigol gan gynnwys cymorth iechyd meddwl; neu siarad â fferyllydd.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau'r GIG ar gael yn: **www.nhs.uk** neu **www.wales.nhs.uk**, neu drwy ffonio: **111/0845 46 47** yn (Cymru/Lloegr) neu drwy ymweld â'ch Meddyg Teulu.

Yn ogystal â chael eich atgyfeirio gan yr heddlu, gallwch hefyd atgyfeirio eich hunan i'r Ganolfan Gyfeirio Ymosodiad Rhywiol.[21] Mae gan y canolfannau hyn weithwyr proffesiynol wedi eu hyfforddi'n arbennig a all roi cymorth iechyd meddwl a chorfforol os ydych wedi cael eich treisio neu eich cam-drin yn rhywiol, p'un a ydych yn dewis adrodd y drosedd wrth yr heddlu ai peidio. Gallwch hefyd gael mynediad at ystod eang o gwnsela seicolegol ac emosiynol a dulliau therapiwtig a ddarperir mewn amrywiaeth eang o leoliadau, er enghraifft, y GIG, asiantaethau sector gwirfoddol a phractisau preifat.

Os nad ydych yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, dylech nodi bod rhai gwasanaethau iechyd wedi'u heithrio rhag talu megis gwasanaethau gofal sylfaenol; gwasanaethau ar gyfer trin

[20] www.gov.uk/contempt-of-court

[21] www.nhs.uk/live-well/sexual-health/help-after-rape-and-sexual-assault/

cyflwr corfforol neu feddyliol a achosir gan artaith, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais domestig, trais rhywiol neu os ydych yn ddioddefwr wedi'i gadarnhau o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: **www.gov.uk/guidance/nhs-entitlements-migrant-health-guide**

**Beth os nad wyf eisiau derbyn yr Hawliau a gynigir o dan y Cod hwn?**

Efallai y byddwch yn penderfynu nad ydych eisiau rhai neu’r cyfan o'r **Hawliau** o dan y Cod hwn. Dylech drafod hyn gyda'r darparwr gwasanaeth perthnasol.

Gallwch ddewis optio yn ôl i dderbyn **Hawliau** dan y Cod hwn ar unrhyw adeg pan fo’r achos yn y broses o gael ei ymchwilio’n weithredol neu’n cael ei erlyn, neu fod y troseddwr yn treulio ei ddedfryd. Nid yw hyn yn berthnasol i’r **Hawl** i gael mynediad at gymorth i’ch helpu i ymdopi, a chyn belled ag sy’n bosib, gwella o fod yn ddioddefwr trosedd. Mae’r **Hawl** hon yn berthnasol p’un a yw unrhyw un wedi ei gyhuddo neu ei euogfarnu o drosedd a p’un a ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd ai peidio neu nid ydych eisiau cydweithredu â'r ymchwiliad ai peidio.

DRAFT

**Hawl 1:** I allu deall a chael eich deall

1.1 Mae gennych **Hawl** i gael help i ddeall beth sy'n digwydd a chael eich deall. Wrth ystyried mesurau priodol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried unrhyw nodweddion personol perthnasol a all effeithio ar eich gallu i ddeall a chael eich deall. Rhaid i bob darparwr gwasanaeth gyfathrebu mewn iaith syml a hygyrch a rhaid i bob gwasanaeth cyfieithu neu ddehongli a ddarperir o dan yr hawl hon gael ei gynnig am ddim i'r dioddefwr.

1.2 Os, o ganlyniad i effaith y drosedd, eich bod angen cymorth i ddeall neu i gael eich deall, gallwch gael eich cefnogi gan berson o'ch dewis, oni bai fod y darparwr gwasanaeth yn ystyried na fyddai er eich lles chi, neu y byddai'n cael effaith ar yr ymchwiliad neu'r erlyniad. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y darparwr gwasanaeth yn dweud pam wrthych.

1.3 Os ydych yn cael anhawster deall neu siarad Saesneg, mae gennych **Hawl** i ddefnyddio cyfieithydd[22] i'ch helpu i ddeall:

- wrth adrodd am drosedd; [23];
- wrth gael eich cyfweld gan yr heddlu; ac
- wrth roi tystiolaeth fel tyst.

1.4 Gallwch hefyd dderbyn cyfieithiad o unrhyw ddogfen lle mae'n hanfodol at ddibenion y cyfweliad neu'r achos llys i ddarllen dogfen a roddir i chi, gan gynnwys:

- cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd yr adroddwyd amdani;
- lle mae'n hanfodol at ddibenion y cyfweliad neu'r gwrandawiad llys i weld dogfen benodol a ddatgelir i chi, copi o rannau perthnasol y ddogfen;
- neges yn eich hysbysu o ddyddiad, amser a lleoliad y treial;
- canlyniad achos troseddol, a phan fyddant ar gael, y rhesymau dros y penderfyniad; a'r
- ymateb i unrhyw gŵyn neu gais a wnaed dan y Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. [24]

1.5 Gallwch hefyd dderbyn cyfieithiad llafar neu grynodeb o unrhyw un o'r dogfennau a restrir uchod, oni byddai gwneud hynny'n niweidio tegwch yr achos.

1.6 Mewn gwrandawiadau yng Nghymru, mae gennych **Hawl** gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn gwneud y trefniadau angenrheidiol. [25] Mae gennych hefyd **Hawl** i gyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl yn Gymraeg, beth bynnag fo lleoliad y troseddwr, ac i ofyn am grynodeb o'r penderfyniad parôl yn Gymraeg.

DRAFT

[22] Mae hyn yn cynnwys cyfieithu ar bapur a chyfieithu ar y pryd, er enghraifft os yw dioddefwr yn fyddar neu'n drwm ei glyw.

[23] Mae gennych **Hawl** i adrodd ynghylch y drosedd mewn iaith yr ydych yn ei deall neu gyda chymorth ieithyddol angenrheidiol os nad ydych yn siarad Saesneg.

[24] Gweler **Hawl 6** am esboniad o Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.

[25] Gweler **Hawl 6** am esboniad o Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.

**Hawl 2:** I gael cofnodi manylion y drosedd heb oedi digyfiawnhad

21 Mae gennych **Hawl** i gael cofnodi manylion y drosedd gan yr heddlu heb oedi digyfiawnhad ar ôl y digwyddiad. Pan fyddwch yn adrodd am ddigwyddiad, bydd gofyn i chi ddarparu manylion am y drosedd.

22 Os gofynnir i chi wneud datganiad tyst, dylai'r heddlu esbonio i chi y gallai hyn olygu eich bod angen rhoi tystiolaeth yn y llys os bydd yr achos yn mynd i dreial.

23 Os gofynnir i chi gael eich cyfweld, dylai unrhyw gyfweliad ddigwydd heb oed digyfiawnhad a dylid cadw nifer y cyfweliadau i'r lleiaf posibl, a lle bo modd dylent gael eu cynnal gan yr un person. Rhaid i'r heddlu gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau nad oes rhaid i chi (a'ch teulu) gael cyswllt diangen â'r sawl sydd dan amheuaeth.

24 Rhaid i’r heddlu ystyried p’un a fyddech yn elwa o gymorth ychwanegol, er enghraifft, cymorth cyfieithydd a bod unrhyw gyfweliad yn cael ei gynnal gan neu drwy weithwyr proffesiynol hyfforddedig i’r diben hwnnw. Rhaid iddynt hefyd wneud yn siŵr ei fod yn digwydd mewn eiddo a ddyluniwyd neu a addaswyd i’r diben. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr heddlu yn dweud pam wrthych.

25 Mae gennych hefyd **Hawl** i ofyn i ddod â rhywun o'ch dewis gyda chi i'r cyfweliad. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr heddlu yn dweud pam wrthych.

26 Os yw’r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn credu y gallai ansawdd eich tystiolaeth gael ei effeithio’n andwyol gan fregusrwydd, rhaid iddynt ystyried a ydych yn gymwys am gefnogaeth Cyfryngydd Cofrestredig (gweler **Hawl 4**) a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol eraill yn seiliedig ar eich anghenion.

**Beth yw Cyfryngydd Cofrestredig?**

Cyfryngydd Cofrestredig yw arbenigwr cyfathrebu hunangyflogedig sy'n helpu dioddefwyr a thystion agored gydag anawsterau cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i'r llys mewn achosion troseddol.

Efallai y bydd dioddefwr/tyst angen cefnogaeth Cyfryngydd Cofrestredig oherwydd eu hoedran, anabledd dysgu, anhwylder meddwl neu anabledd corfforol sy’n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu. Y rhain, yn aml, yw’r gwahaniaeth rhwng tyst yn gallu rhoi tystiolaeth ai peidio.

DRAFT

27 Os oes angen archwiliad meddygol at ddibenion yr achos troseddol, rhaid cadw'r rhain i isafswm ac maent yn amodol ar eich caniatâd.

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Os ydych yn ddioddefwr trais rhywiol, trais seiliedig ar rywedd neu gam-drin domestig, mae gennych Hawl i ofyn bod y swyddog heddlu a fydd yn cynnal y cyfweliad o ryw o'ch dewis. Rhaid i'r heddlu gydymffurfio â'ch cais oni byddai gwneud hynny yn niweidiol i degwch yr achos. Os digwydd hyn, bydd yr heddlu yn dweud pam wrthych.*

28 Os ydych yn ddioddefwr trais rhywiol, trais ar sail rhywedd neu gam-drin domestig, mae gennych **Hawl** i ofyn i'r swyddog heddlu sy'n cynnal y cyfweliad fod o ryw o'ch dewis. Mae'n rhaid i'r heddlu fodloni'ch cais oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar y ffordd briodol o drin yr ymchwiliad neu'n niweidio tegwch yr achos fel arall. Os digwydd hyn, bydd yr heddlu yn dweud pam wrthych.

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Os ydych yn cael eich ystyried fel rhywun sy'n agored i niwed, er enghraifft o dan 18 oed neu dan fygythiad (gweler Hawliau Estynedig ar Dudalen 10 y Cod hwn), bydd yr heddlu'n gofyn i chi, neu'ch rhiant/gwarcheidwad, a hoffech i'ch cyfweliad heddlu gael ei recordio ar fideo i'w gwneud yn haws i chi ddweud wrthyn nhw beth ddigwyddodd. Efallai y bydd hyn cael ei gyflwyno fel eich tystiolaeth yn y llys.*

2.9 Os ydych yn cael eich ystyried fel rhywun sy'n agored i niwed, er enghraifft o dan 18 oed neu dan fygythiad (gweler Hawliau Estynedig), bydd yr heddlu yn gofyn i chi, neu'ch rhiant/gwarcheidwad, a hoffech i'ch cyfweliad heddlu gael ei recordio ar fideo i'w gwneud yn haws i chi ddweud wrthyn nhw beth ddigwyddodd. Efallai y bydd hyn cael ei gyflwyno fel eich tystiolaeth yn y llys. Gallwch hefyd gael eich tystiolaeth groesholi yn y llys wedi ei recordio ymlaen llaw ar adeg gynharach ac ar wahân i'r treial. Bydd yr heddlu yn trafod yr opsiwn hwn â chi. Os ydych am roi eich tystiolaeth yn y treial, os ydych yn gymwys, gall llys ganiatáu i chi roi eich tystiolaeth a chael eich croesholi trwy ystafell cyswllt byw o'r llys neu safle anghysbell, er mwyn lleihau'r risg o gwrdd â'r diffynnydd. Fodd bynnag, os byddai'n well gennych, gallwch roi eich tystiolaeth yn y llys, yn hytrach na thrwy gyswllt fideo. Dylai erlynyddion roi gwybod i dystion, er y gallant ystyried sut yr hoffent roi tystiolaeth, bydd yn amodol ar gais i'r llys a gwneir y penderfyniad terfynol gan farnwr.

DRAFT

### **Hawl 3:** I dderbyn gwybodaeth pan ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd

3.1 Os ydych yn adrodd trosedd i'r heddlu neu gwnaed honiad ar eich rhan, neu os cysylltir â chi fel dioddefwr yn ystod ymchwiliadau, mae gennych **Hawl** i gadarnhad ysgrifenedig o'ch honiad. Bydd hyn yn cynnwys manylion sylfaenol y drosedd, cyfeirnod trosedd a manylion cyswllt swyddog yr heddlu sy'n delio â'ch achos. Gallai'r cadarnhad fod drwy lythyr, e-bost, neges destun, neu gallai fod wedi ei ysgrifennu â llaw.

3.2 Os yw'r heddlu o'r farn y gallai fod risg o niwed i chi petaent yn anfon cadarnhad ysgrifenedig, er enghraifft mewn achosion o gam-drin domestig, mae'n rhaid iddynt ddarparu cadarnhad mewn ffordd nad yw'n peri risg i'ch diogelwch.

3.3 Bydd yr heddlu yn esbonio ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a'ch **Hawliau** fel dioddefwr. Bydd hyn yn cynnwys eich gwneud yn ymwybodol o'r Cod Dioddefwyr a darparu gwybodaeth am ble a sut i gael cyngor a chymorth. Er enghraifft, lle mae'n briodol ac ar gael, sut i geisio iawndal (gweler **Hawl 5**), mynediad at gymorth meddygol, cymorth arbenigol, megis cymorth seicolegol (gan gynnwys therapi a chwnsela cyn treial), a llety amgen. Bydd yr heddlu hefyd yn egluro pa drefniadau sydd ar gael os nad ydych yn byw yng Nghymru a Lloegr.

3.4 Mae gan gyrff cyfiawnder troseddol eraill ddyletswydd gyfreithiol i'ch gwneud yn ymwybodol o'r Cod Dioddefwyr, felly gallwch ddisgwyl cael y wybodaeth hon ar adegau lluosog wrth i'ch achos symud ymlaen drwy'r system gyfiawnder.

#### Cael Mynediad at Lety Diogel

Os ydych yn dioddef cam-drin domestig mae nifer o sefydliadau a all roi cyngor a chymorth i chi ar sut i gael mynediad at lety diogel. Gweithredir y Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, gan dîm ymroddedig o arbenigwyr a gellir ei chyrraedd ar: **0808 2000 247**. Mae'r Samariaid hefyd yn gweithio bob dydd, 24 awr y dydd, a gellir cysylltu â nhw ar: **116 123**. Fel arall, gall ystod o wasanaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, Meddygon Teulu, fferyllfeydd a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ddarparu rhagor o wybodaeth a'ch cyfeirio at gymorth yn eich ardal.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **www.gov.uk/report-domestic-abuse**. Mae gan y rhan fwyaf o safleoedd cymorth cam-drin domestig opsiynau gadael sydyn i'r rheiny ag amser cyfyngedig. Os ydych mewn perygl uniongyrchol, dylech gysylltu â'r heddlu ar: **999**.

#### Riportio treisio neu ymosodiad rhywiol

Os oes angen i chi riportio treisio neu ymosodiad rhywiol, mae gwybodaeth am y broses hon, beth allai ddigwydd wedyn a pha gymorth sydd ar gael yn

35 Os yw’r troseddwr yn oedolyn, mae gennych yr **Hawl** i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol yn eich ardal leol. Os yw’r troseddwr dan 18 oed, mae gennych **Hawl** i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan y Tîm Troseddau Ieuenctid. [26]

36 Er bod yr heddlu yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ynglŷn â Chyfiawnder Adferol i chi yn y lle cyntaf, mae’n rhaid i bob darparwr gwasanaeth ystyried a fyddech yn elwa o dderbyn yr wybodaeth hon ar unrhyw gam o’r broses cyfiawnder troseddol.

**Beth yw Cyfiawnder Adferol?**

Cyfiawnder Adferol yw proses sy’n rhoi’r rheiny wedi eu niweidio gan drosedd, a’r rheiny sy’n gyfrifol am y niwed, mewn cysylltiad. Mae’n galluogi pawb yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiad penodol i chwarae rhan yn adfer y niwed hwnnw a all fod yn werthfawr wrth ddod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen**.** Gall y cyfathrebu ddigwydd ar sawl ffurf, i rai gall hyn olygu cwrdd â’r troseddwr wyneb yn wyneb, i eraill, gallai hyn fod yn gyfathrebu drwy lythyr, cyfweliadau neu fideos wedi eu recordio. Pa bynnag ffurf ar Gyfiawnder Adferol sydd fwyaf addas i chi, bydd hwyluswyr hyfforddedig yn eich paratoi a’ch cefnogi gydol yr amser.

Mae Cyfiawnder Adferol yn wirfoddol i bob parti ac mae’n rhaid i bawb ynghlwm gytuno, gan gynnwys hwyluswyr, ei bod yn ddiogel a phriodol bwrw ymlaen. Dim ond os ydych chi a'r troseddwr, ar ôl cydnabod ffeithiau sylfaenol yr achos, eisiau cymryd rhan y bydd hyn yn digwydd. Nid oes rhaid i chi gymryd rhan a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Gallwch ofyn am gael cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol ar adeg sy'n addas i chi. Efallai y cynigir y cyfle i chi gymryd rhan oherwydd bod y troseddwr wedi cael ei atgyfeirio ac fe’i hystyrir yn ddiogel.

37 Rhaid darparu’r holl wybodaeth o dan yr **Hawl** hon yn ymwneud â darparu gwybodaeth gan yr heddlu **o fewn 5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith** o dan **Hawliau Estynedig** – gweler Tudalen 10 o’r Cod hwn) o riportio’r drosedd. Dylai sefydliadau eraill sy’n hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r Cod ddarparu gwybodaeth mewn modd amserol ac ar adeg sy’n briodol i chi. Dylent felly arfer barn resymol am y foment a'r dull mwyaf priodol ar gyfer rhannu'r Cod gyda chi.

[26] Mae’r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dîm amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant rhwng 10 a 17 oed sydd wedi troseddu, neu a all fod mewn perygl o droseddu. Maent yn cael eu cydlynu gan awdurdod lleol penodol ac fel rhan o’r system cyfiawnder ieuenctid, maent yn cael eu monitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

**Hawl 4:** I gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i'ch anghenion

## Asesiadau Anghenion

4.1 Os byddwch yn penderfynu adrodd wrth yr heddlu, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cymorth. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o p'un a ydych yn gymwys i dderbyn **Hawliau Estynedig** fel y nodir ar dudalen 10 y Cod hwn. Po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei rhoi yn ystod yr asesiad hwn, y gorau y bydd darparwyr gwasanaethau yn gallu cynnig cymorth a chefnogaeth sy'n diwallu eich anghenion.

4.2 Drwy gydol eich achos, mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth roi cyfle i chi gael eich ailasesu os ydych yn dweud wrthynt sut mae eich anghenion wedi newid.

4.3 Os oes gofyn i chi fynychu llys i roi tystiolaeth, byddwch yn cael cynnig asesiad o anghenion ar wahân gan yr Uned Gofal Tystion i benderfynu a ydych angen unrhyw gymorth a chefnogaeth ychwanegol cyn y treial ac yn y llys.

## Atgyfeiriad at Wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr

4.4 Mae gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr yno i'ch helpu i ymdopi, a chyn belled ag sy'n bosibl, gwella ar ôl trosedd. Mae mynediad at gymorth am ddim, hyd yn oed os nad yw'r drosedd wedi cael ei hadrodd i'r heddlu. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cymorth yn eich ardal, cysylltwch â'ch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau lleol[27] neu ewch i: www.gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime

4.5 Os ydych yn adrodd trosedd wrth yr heddlu, mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio at wasanaeth sy'n cefnogi dioddefwyr, gan gynnwys gwasanaethau Cyfiawnder Adferol. Bydd yr heddlu yn dweud wrthych am yr holl wasanaethau cymorth i ddioddefwyr sydd ar gael yn eich ardal leol. Byddwch yn cael eich atgyfeirio at wasanaeth cymorth **o fewn 2 ddiwrnod gwaith**, a bydd y gwasanaethau hyn yn ymdrechu i ddarparu mynediad prydlon at gymorth yn seiliedig ar argaeledd.

4.6 Os ydych yn dewis peidio ag adrodd trosedd wrth yr heddlu, mae gennych **Hawl** o hyd i gael mynediad at wasanaethau cymorth ar unrhyw adeg. Gallwch gysylltu â gwasanaethau cymorth lleol yn uniongyrchol. I chwilio am wasanaeth cymorth yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol 24 neu ewch i: www.gov.uk/get- support-as-a-victim-of-crime

[27] www.apccs.police.uk/find-your-pcc/



DRAFT

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Gan ddibynnu ar eich anghenion a natur eich achos, efallai y cewch gynnig cymorth arbenigol, er enghraifft gan Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol neu Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol. Bydd eich ymgynghorydd fel arfer yn gweithredu fel eich pwynt cyswllt unigol drwy gydol yr achos ac yn cyfathrebu gyda'r heddlu, yr Uned Gofal Tystion a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar eich rhan.*

***Beth yw rôl Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol neu Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol?*** *Ymgynghorydd yw Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol, p'un a ydynt wedi adrodd hynny wrth yr heddlu ai peidio. Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig i ddeall eu profiadau a'u risg o niwed parhaus. Byddant yn datblygu cynllun diogelwch unigol gyda dioddefwr i sicrhau bod ganddynt bopeth sydd eu hangen arnynt i fod yn ddiogel a dechrau ailadeiladu eu bywydau yn rhydd rhag cam-drin. Gall y cynllun hwn gynnwys cefnogi dioddefwr i gael mynediad at wasanaethau statudol (megis gwasanaethau gofal iechyd a thai), cynrychioli eu llais mewn Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth a chael mynediad at wasanaethau gwirfoddol eraill yn eu cymuned. Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn annibynnol ar wasanaethau statudol ac yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol i ddioddefwyr a chyngor wedi ei deilwra i'w hanghenion.*

DRAFT

**Gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr**

Efallai y byddwch yn profi ystod o effeithiau yn dilyn trosedd ac efallai y bydd angen gwasanaethau cyngor, adferiad a chymorth arnoch, a allai fod yn feddygol, therapiwtig, ymarferol a/neu emosiynol. Gallwch gael mynediad at wasanaethau cymorth dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae rhai enghreifftiau o gymorth wedi'u nodi isod.

**Cymorth cyffredinol:**

- Cymorth i Ddioddefwyr: mae'n gweithredu llinell gymorth gyfrinachol 24/7 a gwasanaeth sgwrsio byw am ddim, bob dydd o'r flwyddyn - gan gynnig cymorth cyfrinachol i unrhyw un y mae troseddu'n effeithio arnynt.

**Cymorth yn ystod y llys:**

- Gwasanaeth Cymorth i Dystion: Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol annibynnol am ddim i'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth fel tystion mewn achosion llys.

**Cymorth i ddioddefwyr trais a cham-drin rhywiol:**

- Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs): Mae SARCs yn cynnig cymorth meddygol ac ymarferol cyfrinachol i bobl sydd wedi'u treisio neu wedi dioddef ymosodiad rhywiol. Mae SARCs yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gofal argyfwng, archwiliadau meddygol a fforensig, atal cenhedlu brys a phrofion ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA): Mae ISVAs yn gweithio gyda phobl sydd wedi profi troseddau o natur rywiol ac yn darparu gwybodaeth ddiduedd am opsiynau dioddefwr, megis riportio i'r heddlu, cyrchu SARCs, a chymorth arbenigol megis therapi cyn-treial a chwnsela trais rhywiol. Mae ISVAs hefyd yn darparu gwybodaeth am wasanaethau eraill y gall fod eu hangen ar ddioddefwyr, er enghraifft mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, tai neu fudd-daliadau.

**Cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig:**

- Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA): Mae IDVAs fel arfer yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel fel y gallant ddod yn ddiogel. Bydd IDVAs yn darparu cymorth diduedd ynghylch opsiynau dioddefwr ac yn gweithio ag asiantaethau gwahanol i ddarparu cymorth cofleidiol, megis cefnogi dioddefwyr i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol, tai, budd-daliadau, gwasanaethau cymdeithasol a chwnsela. Byddant hefyd yn cynrychioli lleisiau dioddefwyr mewn Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) sy'n trafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y dioddefwr gan arwain at gynllun gweithredu cydgysylltiedig.

**Gwasanaethau cymorth eraill:**

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion cyswllt, am yr amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion ewch i: **http://www.gov.uk/**www.gov.uk .uk/guidance/victim-and-witness-services.

4.7 Os ydych yn berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth, mae gennych **Hawl** i gael Swyddog Cyswllt Teuluol wedi ei neilltuo i chi gan yr heddlu, pan fo'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn ystyried hyn yn briodol (bydd hyn yn digwydd yn y rhan fwyaf o achosion). Bydd eich Swyddog Cyswllt Teuluol fel arfer yn gweithredu fel y pwynt cyswllt rhyngoch chi a darparwyr gwasanaethau. Os ydych yn aelod o deulu agos mewn profedigaeth o ganlyniad i lofruddiaeth neu ddynladdiad, mae gennych hefyd **Hawl** i gael eich atgyfeirio at y Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol ac unrhyw wasanaeth cymorth arbenigol perthnasol arall. Fel arfer gwneir y cynnig hwn drwy eich Swyddog Cyswllt Teuluol.

**Beth yw'r Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol?**

Mae'r Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol yn wasanaeth am ddim sy'n darparu cymorth emosiynol, ymarferol, arbenigol a chymheiriaid i deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad, gan gynnwys ar ôl gweithred o derfysgaeth.

4.8 Gan ddibynnu ar eich anghenion a natur eich achos, efallai y cewch gynnig cymorth arbenigol, er enghraifft gan Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol neu Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol. Bydd eich ymgynghorydd fel arfer yn gweithredu fel eich pwynt cyswllt unigol drwy gydol yr achos ac yn cyfathrebu gyda'r heddlu, yr Uned Gofal Tystion a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar eich rhan.

**Beth yw rôl Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol neu Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol?**

Ymgynghorydd yw Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol, p'un a ydynt wedi adrodd hynny wrth yr heddlu ai peidio.

Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig i ddeall eu profiadau a'u risg o niwed parhaus. Byddant yn datblygu cynllun diogelwch unigol gyda dioddefwr i sicrhau bod ganddynt bopeth sydd eu hangen arnynt i fod yn ddiogel a dechrau ailadeiladu eu bywydau yn rhydd rhag cam-drin. Gall y cynllun hwn gynnwys cefnogi dioddefwr i gael mynediad at wasanaethau statudol (megis gwasanaethau gofal iechyd a thai), cynrychioli eu llais mewn Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth a chael mynediad at wasanaethau gwirfoddol eraill yn eu cymuned. Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn annibynnol ar wasanaethau statudol ac yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol i ddioddefwyr a chyngor wedi ei deilwra i'w hanghenion.

4.9 Os oes gofyn i chi roi tystiolaeth yn y llys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig atgyfeiriad at y Gwasanaeth Cefnogi Tystion (gweler **Hawl 8**).

4.10 Ar ddiwedd eich achos, beth bynnag fo'r canlyniad, mae gennych **Hawl** i gael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud defnydd ohonynt o'r blaen. I chwilio am wasanaeth sy'n cefnogi dioddefwyr yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau lleol[28] neu ewch i: www.gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime

[28] www.apccs.police.uk/find-your-pcc/

## Mesurau Arbennig

4.11 Mae gennych **Hawl** i gael asesiad o'ch anghenion gan yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion i benderfynu a ydych yn gymwys ac a fyddech chi'n elwa o roi tystiolaeth drwy ddefnyddio mesurau arbennig. [29] Bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion yn egluro pa fesurau arbennig sydd ar gael ac yn gofyn am eich barn ynglŷn â beth yr hoffech ymgeisio amdano.

**Beth yw mesurau arbennig?**

Mae dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed neu sydd wedi'u bygwth [30] (gweler **Hawliau Estynedig**) yn gallu gofyn i fesurau arbennig gael eu defnyddio yn ystod y treial i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau yn y llys a helpu i leddfu rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth. Os ydynt yn gymwys, bydd y llys yn penderfynu p'un a ddylid caniatáu mesurau arbennig.

Mae mesurau arbennig cyffredin yn cynnwys: cael sgrin/llen o amgylch y blwch tystio neu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo byw, naill o ystafell ar wahân o fewn y llys neu ystafell cyswllt fideo byw bwrpasol y tu allan i adeilad y llys, fel nad oes rhaid i chi wynebu'r diffynnydd nac arsylwadau'r llys.

Ymhlith mesurau arbennig eraill mae:

- rhoi tystiolaeth yn breifat heb y wasg na'r cyhoedd yn y llys;
- tynnu'r wigiau a'r gynau a wisgir gan y barnwr ac adfocadau'r amddiffyniad a'r erlyniad yn Llys y Goron;
- defnyddio cymhorthion cyfathrebu neu eich holi drwy gyfryngwr i ddeall cwestiynau; neu
- gyflwyno tystiolaeth neu gael eich croesholi drwy recordiad fideo ymlaen llaw, sy'n golygu nad oes angen i'r tyst roi tystiolaeth yn y llys (ni all tystion newid eu meddyliau o recordio ymlaen llaw i fynychu'r treial i roi tystiolaeth).

4.12 Bydd y barnwr neu'r ynad yn penderfynu a ddylid rhoi mesurau arbennig yn eu lle yn dilyn cais gan yr erlynydd. Bydd yr Uned Gofal Tystion yn dweud wrthych am benderfyniad y barnwyr neu'r ynadon (gweler **Hawl 8**) a bydd staff llys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn sicrhau bod unrhyw fesurau arbennig a ganiateir ar gael i chi yn y llys.

[29] Cyflwynodd y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA) amrywiaeth o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion sy'n agored i niwed a rhai sydd wedi eu bygwth. Gyda'i gilydd, gelwir y mesurau hyn yn 'fesurau arbennig'. Mae mesurau arbennig yn helpu i leddfu rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth ac maent yn berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond nid y diffynnydd.

[30] Mae hyn yn dilyn y meini prawf yn adran 16 ac 17 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 i'r llys benderfynu ar gymhwysedd ar gyfer mesurau arbennig.

**Hawl 5:** I dderbyn gwybodaeth am iawndal

## Iawndal a orchmynnwyd gan y llys

5.1 Os yw’r diffynnydd yn pledio'n euog neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, efallai y bydd y barnwr neu’r ynad yn ei orchymyn i dalu iawndal i chi am unrhyw golled, difrod neu anaf a achoswyd o ganlyniad i'r drosedd. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu sut i wneud cais am iawndal ac efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'ch colled neu ddifrod, er enghraifft, derbynebau neu ddyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio'r difrod a achoswyd yn ystod y drosedd.

## Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol

5.2 Os ydych wedi dioddef anaf corfforol neu feddyliol difrifol o ganlyniad uniongyrchol i drosedd dreisgar, efallai y bydd gennych hawl i iawndal drwy'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol (y Cynllun).[31] Mae'r Cynllun ar gyfer y rhai a anafir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu sut i wneud cais am iawndal drwy’r Cynllun.[32] (gweler **Hawl 3**).

5.3 Yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol sy’n gyfrifol am weinyddu'r Cynllun.

5.4 Peidiwch ag oedi eich cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Fel rheol, dylai hyn fod o **fewn dwy flynedd** i ddyddiad y digwyddiad. Dim ond lle mae amgylchiadau eithriadol y gall yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol estyn y terfynau amser. [33] Mae rheolau gwahanol yn berthnasol os oeddech yn iau na 18 mlwydd oed ar adeg y digwyddiad. I fod yn gymwys am iawndal, bydd angen i chi fodloni’r meini prawf cymhwystra ehangach a nodir o fewn y Cynllun.

5.5 Ni ddylech ddisgwyl tan ganlyniad y treial troseddol i wneud cais. Nid yw eich hawliad yn ddibynnol ar euogfarnu troseddwr. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol yn atal eich cais hyd nes y byddwch yn gwybod canlyniad y treial, os nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i allu bwrw ymlaen â’ch hawliad.

5.6 Ystyrir y Cynllun yn gam olaf. Lle mae’r cyfle yn bodoli i fynd ar drywydd iawndal yn rhywle arall, dylech wneud hynny. Bydd dyfarniad dan y Cynllun yn cymryd i ystyriaeth taliadau iawndal eraill a wneir i chi, megis iawndal a orchmynnwyd gan y llys neu ddyfarniad anaf personol sifil. Efallai y bydd yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol yn gohirio gwneud penderfyniad ar hawliad hyd nes y byddwch yn cymryd camau rhesymol i geisio iawndal drwy lwybrau eraill sydd ar gael i chi ac yn disgwyl canlyniad y camau hynny.

[31] Os ydych yn ystyried gwneud cais am iawndal anafiadau troseddol i'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol, dylech fod yn ymwybodol y bydd dyfarniad yn cael ei ddal yn ôl oni bai eich bod wedi cydweithio cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol i ddod â'r ymosodwr o flaen ei well.

[32] Gall cymhwystra ar gyfer iawndal gan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol ddibynnu ar eich preswyliad neu genedligrwydd oni bai eich bod wedi cael eich adnabod yn bendant gan awdurdod cymwys fel dioddefwr masnachu mewn pobl neu wedi cael lloches dan y Rheolau Mewnfudo a wneir o dan adran 3(2) Deddf Mewnfudo 1971.

[33] O ganlyniad i amgylchiadau eithriadol ni ellid gwneud cais yn gynharach; ac mae tystiolaeth bod trosedd dreisgar wedi ei chyflawni a gall swyddog hawliadau wneud penderfyniad heb ymholiadau helaeth eraill.



DRAFT

5.7 Ar ôl i chi wneud cais, bydd yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol yn cadarnhau bod eich cais wedi dod i law ac yn ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig ynglŷn â'ch cais o fewn **20 diwrnod gwaith** ar ôl ei dderbyn.

5.8 Ar ôl ystyried eich cais, byddwch yn derbyn gwybodaeth am yr **Hawl** i adolygu penderfyniad yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol, gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser ar gyfer adolygu'r penderfyniad hwnnw.

5.9 Gellir gweld rhagor o wybodaeth am wneud cais am iawndal yn: www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury, gan yr heddlu, eich gwasanaeth cymorth lleol, neu drwy gysylltu â'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ar: **0300 003 3601.**[34]

## Y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor

5.10 Er ei fod y tu allan i gwmpas y Cod, efallai y bydd dioddefwyr y Deyrnas Unedig a gaiff eu hanafu mewn ymosodiadau terfysgol dramor hefyd yn gymwys am iawndal drwy'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch gwneud cais am iawndal ar gael yn: www.gov.uk/compensation-victim-terrorist-attack, neu drwy gysylltu â'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ar: **0300 003 3601**. [35]

### Iawndal sifil (heb fod yn droseddol)

5.11 Gall fod yn bosibl gofyn am iawndal oddi wrth y sawl dan amheuaeth neu droseddwr y tu allan i'r broses cyfiawnder troseddol. Os ydych eisiau ystyried gwneud cais am iawndal sifil, dylech ofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr.

### Cael cyngor/cymorth cyfreithiol ynglŷn â hawlio iawndal

5.12 Os ydych angen cyngor a/neu gymorth cyfreithiol, dylech gysylltu â chyfreithiwr. Os ydych ar incwm isel neu fudd-daliadau efallai y byddwch yn gallu cael cymorth cyfreithiol i helpu i dalu'r gost. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn ag a ydych yn gymwys am Gymorth Cyfreithiol yn: **www.gov.uk/legal-aid**

5.13 I ddod o hyd i gyfreithiwr lleol, dylech gysylltu â Chymdeithas y Gyfraith yn: **www.lawsociety.org.uk**

[34] Dydd Llun – Dydd Gwener, 10:00am – 3:00pm
[35] Dydd Llun – Dydd Gwener, 10:00am – 3:00pm



DRAFT

**Hawl 6:** I dderbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad

6.1 Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu pan wneir penderfyniadau allweddol ar yr ymchwiliad, a lle bo'n berthnasol, i gael esboniad o'r rhesymau o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn) o'r amser y caiff y sawl sydd dan amheuaeth:

- ei arestio;
- ei gyfweld dan rybudd;
- ei ryddhau heb ei gyhuddo; a'i
- ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu neu o dan ymchwiliad neu os bydd amodau mechnïaeth yr heddlu yn cael eu newid neu eu canslo.

6.2 Os yw'r heddlu yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch achos, byddwch yn derbyn eglurhad o'r penderfyniad hwn o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn). Bydd yr heddlu hefyd yn cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth i chi.

6.3 Os bydd yr heddlu'n penderfynu rhyddhau'r sawl dan amheuaeth ar fechnïaeth cyn iddo gael ei gyhuddo, lle bo modd byddant yn trafod â chi a ddylid gosod amodau ar y sawl dan amheuaeth a beth ddylai'r amodau hynny fod.[36] Byddwch yn cael cyfle i roi eich barn ar yr amodau hyn. Os caiff yr amodau eu newid ar unrhyw adeg yn ystod y fechnïaeth ar gais y sawl dan amheuaeth, byddwch yn cael gwybod gan yr heddlu ac yn cael cyfle arall i roi eich barn, lle bo hyn yn rhesymol ymarferol.

6.4 Lle mae'r heddlu yn ymchwilio i'ch achos, byddant yn trafod gyda chi pa mor aml yr hoffech chi dderbyn diweddariadau a'r dull cysylltu sydd orau gennych. Gallwch ddiweddaru eich dewisiadau ar unrhyw adeg.

6.5 Gall yr ymchwiliad a'r penderfyniad ynglŷn ag a yw'r achos yn mynd i'r llys gymryd amser hir a gall fod cyfnodau hir rhwng penderfyniadau allweddol. Bydd yr heddlu yn trafod gyda chi os hoffech gael cyswllt yn ystod y cyfnod hwn a byddant yn rhoi manylion cyswllt i chi os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod yr ymchwiliad.

6.6 Efallai y bydd adegau pan na fydd y darparwr gwasanaeth yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn rheolaidd a/neu ddefnyddio eich dewis ddull o gysylltu, ond yn yr achosion hyn, byddant yn dweud pam wrthych.

6.7 Mewn rhai achosion, gall yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron, benderfynu delio â'r achos heb fynd ag ef i'r llys. Gelwir hyn yn warediad y tu allan i'r llys. [37] Mae hyn yn galluogi'r digwyddiad i gael ei drin yn gymharol gyflym a gall fod yn fwy effeithiol o ran atal troseddau pellach.

6.8 Lle mae'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried gwarediad y tu allan i'r llys mae gennych **Hawl** i gael eich gofyn am eich barn ac i'r farn hon gael ei hystyried pan yw penderfyniad
yn cael ei wneud. Lle nad yw hyn yn bosibl am resymau ymarferol, bydd yr heddlu neu

[36] Adrannau 30CA a 47ZZA o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.

[37] Dewisiadau eraill yn lle erlyn, megis rhybuddion, rhybuddion amodol a hysbysiadau cosb am anhrefn, a fwriedir ar gyfer ymdrin â throseddau lefel isel, troseddu am y tro cyntaf yn aml, lle na fyddai erlyniad er lles y cyhoedd.

Wasanaeth Erlyn y Goron yn dweud pam wrthych.

DRAFFT

6.9 Bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd y penderfyniad terfynol ar ôl ystyried amgylchiadau llawn y drosedd a'ch barn chi. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod am y rhesymau dros eu penderfyniad o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn) o'r amser y rhoddir gwarediad y tu allan i'r llys i'r troseddwr.

6.10 Pan fydd yr heddlu wedi gorffen eu hymchwiliad, efallai y byddant yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf neu, ar gyfer troseddau mwy difrifol, yn trosglwyddo'r wybodaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron, a fydd wedyn yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i fynd â'r achos i'r llys.

6.11 Os yw'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio ag erlyn y sawl dan amheuaeth, mae gennych **Hawl** i gael gwybod o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** - gweler tudalen 10 y Cod hwn) i'r penderfyniad:

- y rhesymau dros y penderfyniad;
- sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth;
- sut i geisio adolygiad a gwneud sylwadau dan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu neu gynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron;[38] a
- sut i gael eich atgyfeirio at wasanaeth cymorth.

6.12 Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn y sawl sydd dan amheuaeth, mae gennych **Hawl** i ofyn am adolygiad o dan gynlluniau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu neu Gynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylid rhoi gwybodaeth i chi am sut mae'r cynlluniau'n gweithio, gan gynnwys beth yw'r canlyniadau posibl. Bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn dweud wrthych a yw'r penderfyniad yn eich achos yn gymwys i gael adolygiad

DRAFT

[38] Bydd darparwyr gwasanaethau eraill (a restrir ar dudalen 8 y Cod hwn) yn egluro sut mae gofyn am adolygiad drwy eu cynlluniau eu hunain.

**Beth yw'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad?**

Mae'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi **Hawl** i ddioddefwyr trosedd ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn, neu i atal yr achos. Mae'r rhain yn gynlluniau ar wahân, sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, ond maent yn rhannu'r un egwyddorion allweddol sy'n golygu bod rhai penderfyniadau'n gymwys i'w hadolygu, a byddwch yn cael gwybod am hyn, sut i ofyn am adolygiad a'r canlyniadau posibl.

**Heddlu**

Mae'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi **Hawl** i ddioddefwyr ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu i beidio ag erlyn y sawl dan amheuaeth. Mae hyn yn berthnasol i achosion lle mae'r sawl dan amheuaeth wedi ei adnabod a'i gyfweld dan rybudd, naill ar ôl ei arestio neu'n wirfoddol. Mae gennych **Hawl** i ofyn am adolygiad os yw'r heddlu yn penderfynu:

- peidio â dwyn achos mewn achosion lle mae ganddynt awdurdod i gyhuddo; neu lle
- nad yw'r achos yn pasio'r prawf ar gyfer atgyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfyniad cyhuddo.

DRAFT

## Gwasanaeth Erlyn y Goron

*[TESTUN GWREIDDIOL: Mae'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi Hawl i ddioddefwyr ofyn am adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â chyhuddo neu derfynu'r holl achos.*

Mae'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi'r **Hawl** i ddioddefwyr ofyn am adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â dechrau erlyniad neu i atal erlyniad. Os yw penderfyniad yn gymwys ar gyfer adolygiad o dan y cynllun (gweler isod), nid oes angen unrhyw resymau na chyfiawnhad dros ofyn am adolygiad. Y cyfan sydd ei angen yw cais syml gennych eich bod yn dymuno i'r penderfyniad gael ei adolygu. O dan y Cynllun, gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniadau canlynol gan Wasanaeth Erlyn y Goron:

- peidio â chyhuddo;
- rhoi'r gorau (neu dynnu'n ôl yn Llys yr Ynadon) yr holl gyhuddiadau, a thrwy hynny derfynu'r holl achosion;
- peidio â chynnig unrhyw dystiolaeth yn yr holl achosion; neu
- gadael yr holl achosion i gael 'eu cadw ar ffeil' (dyma'r term a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud penderfyniad i beidio â symud ymlaen ac yn gofyn am ganiatâd i'r cyhuddiadau gael 'eu cadw ar ffeil', a'u marcio 'dim parhad heb ganiatâd y Llys hwn neu'r Llys Apêl').

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch pa benderfyniadau sy'n gymwys i'w hadolygu o dan y cynllun, y broses adolygu, a chanlyniadau posibl ar ôl adolygiad ar gael ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

6.13 Os ydych yn ddioddefwr mewn achos penodol[39] lle mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dweud wrthych am benderfyniad i beidio â chyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod, oni bai fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu na ddylai cyfarfod gymryd lle. Ar yr adegau prin pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu nad yw cyfarfod yn briodol, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei egluro i chi.

6.14 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo o drosedd(au), mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn):

- y drosedd y cyhuddir nhw ohoni;

[39] Achosion penodol lle mae dioddefwyr â'r hawl i gael cyfarfod â'r CPS yw: cam-drin plant; troseddau rhywiol; troseddau a waethygir oherwydd hil neu grefydd; troseddau gydag elfen homoffobig neu drawsffobig; troseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail anabledd; ac achosion a ysgogir gan elyniaeth ar sail oedran.

- dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad llys cyntaf; a
- lle mae’r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, unrhyw amodau mechnïaeth ac unrhyw newidiadau i'r amodau mechnïaeth hyn.

6.15 Os ydych yn aelod o deulu agos mewn profedigaeth mewn achos cymwys[40] mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn neu yn dilyn penderfyniad ynghylch cyhuddo’r sawl dan amheuaeth ai peidio. Os gwneir penderfyniad i gyhuddo, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro sut mae'r achos yn debygol o symud ymlaen ac yn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn trafod eich anghenion a chytuno ar y cyd pa mor rheolaidd y byddwch yn derbyn diweddariadau.

6.16 Os, ar ôl i'r sawl dan amheuaeth gael ei gyhuddo o drosedd(au), y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu atal cyhuddiad a bwrw ymlaen ag un arall, gwneud newid mawr i gyhuddiad neu atal yr achos, mae gennych **Hawl** i gael gwybod y rheswm pam a, lle mai'r penderfyniad yw atal yr achos, sut i ofyn am adolygiad o dan Gynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron, os ydych yn anghytuno â'u penderfyniad.

DRAFT

[40] Yr achosion lle mae gan deuluoedd mewn profedigaeth hawl i gyfarfod â’r CPS yw: llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, lladdiad teuluol, achosi marwolaeth drwy yrru’n beryglus, achosi marwolaeth drwy yrru’n ddiofal tra’n anaddas oherwydd alcohol neu gyffuriau, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal neu drwy yrru'n ddiofal, achosi marwolaeth drwy yrru heb drwydded, wedi'ch anghymhwyso neu heb yswiriant a chymryd cerbydau’n waethygedig pan achosir marwolaeth.

**Hawl 7:** I wneud Datganiad Personol Dioddefwr

7.1 Mae gennych **Hawl** i wneud Datganiad Personol Dioddefwr i esbonio yn eich geiriau eich hun sut y mae'r drosedd wedi effeithio arnoch, boed yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae hyn yn wahanol i ddatganiad tyst. Ystyrir y Datganiad Personol Dioddefwr gan y barnwr neu'r ynad wrth benderfynu pa ddedfryd y dylai'r diffynnydd ei chael a gall hefyd helpu darparwyr gwasanaethau i ystyried pa gymorth ychwanegol a all fod ei angen arnoch chi a/neu eich teulu.

7.2 Os ydych yn aelod agos o'ch teulu mewn profedigaeth, mae gennych **Hawl** i wneud Datganiad Personol Dioddefwr a **Hawl** i gael rhywun gyda chi pan fyddwch yn gwneud hynny, ni waeth a ydych wedi gwneud datganiad tyst ai peidio.

7.3 Mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am y broses Datganiad Personol Dioddefwr gan yr heddlu pan ydych yn adrodd wrthynt am y drosedd i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau gwneud un. Os ydych yn penderfynu gwneud datganiad personol, gofynnir i chi beth sydd orau gennych, a fyddai'n well gennych ddarllen eich datganiad yn uchel yn y llys neu gael rhywun i'w ddarllen ar eich rhan. Gallwch hefyd ofyn am gopi gan yr heddlu a chewch gyfle i wneud datganiad personol ychwanegol i adlewyrchu effaith newidiol y drosedd.

7.4 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, a'ch bod wedi gofyn am i'ch datganiad gael ei ddarllen yn uchel (neu ei chwarae) yn y llys, bydd y barnwr neu'r ynad yn penderfynu pa rannau o'ch datganiad personol a ddylai gael eu darllen yn uchel (neu eu chwarae), a phwy ddylai eu darllen. Bydd y barnwr neu'r llys bob amser yn cymryd eich barn i ystyriaeth wrth wneud eu penderfyniad, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Bydd yr Uned Gofal Tystion yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y barnwr neu'r ynad.

7.5 Nid oes rhaid i chi ddarllen eich Datganiad Personol Dioddefwr yn uchel eich hun na chael rhywun i'w ddarllen ar eich rhan. Os ar y dechrau eich bod yn dewis cael darllen eich datganiad personol yn uchel ond yn penderfynu wedyn nad ydych eisiau hyn, gallwch newid eich meddwl. Ystyrir eich datganiad personol gan y barnwr neu'r ynad yr un fath, p'un a yw'n cael ei ddarllen (neu ei chwarae) yn y llys ai peidio.

7.6 Yn ychwanegol at hawl y cyswllt a enwir ar gyfer busnes i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, gall busnesau o bob maint wneud Datganiad Effaith ar Fusnes. Mae hyn yn debyg i Ddatganiad Personol Dioddefwr a bydd yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd yn y llys, ond mae'n caniatáu i'r busnes egluro sut y mae trosedd wedi effeithio arno, megis colled uniongyrchol ariannol, amhariad gweithredol neu niwed i enw da.

7.7 Mae gan y cyswllt a enwir yr **Hawl** i gael gwybodaeth am y broses Datganiad Effaith ar Fusnes gan yr heddlu pan fyddant yn adrodd wrthynt am y drosedd, i helpu iddynt benderfynu p'un a yw'r busnes yn dymuno gwneud un ai peidio.

7.8 Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y broses Datganiad Personol Dioddefwr a'r Datganiad Effaith ar Fusnes gan yr heddlu ac yn:
**www.gov.uk/government/publications/victim- personal-statement**

DRAFT

**Pryd y gallaf wneud Datganiad Personol Dioddefwr?**

Gallwch wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar unrhyw adeg cyn dedfrydu'r troseddwr, fodd bynnag, efallai na fyddwch yn cael cyfle i wneud un unwaith y bydd y gwrandawiad llys wedi dechrau, ac yn enwedig os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog.

I lawer o ddioddefwyr, yr amser gorau i wneud Datganiad Personol Dioddefwr yw pan fyddant yn cael gwybod bod y sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gyhuddo ac efallai y bydd effaith lawn y drosedd yn gliriach. Gall yr heddlu ddal i ofyn am fanylion yr effaith gychwynnol wrth gynnal eich asesiad anghenion, neu gymryd eich datganiad tyst.

**A yw'n bosibl i mi newid fy meddwl neu ddiweddaru fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Unwaith y byddwch wedi gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, daw yn rhan o bapurau'r llys ac ni allwch ei dynnu'n ôl na'i newid. Fodd bynnag, os ydych yn cofio rhywbeth pwysig, neu eich bod yn teimlo fod effaith y drosedd arnoch chi wedi newid, gallwch wneud datganiad arall.

**A fydd y diffynnydd yn gallu gweld fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Os yw'r achos yn cyrraedd llys, bydd y diffynnydd fel arfer yn cael caniatâd i ddarllen eich datganiad personol. Fel gyda thystiolaeth arall, os yw'r llys yn cytuno ei fod yn berthnasol i'r achos, gall yr amddiffyniad ofyn cwestiynau am gynnwys eich datganiad personol. Os yw eich datganiad yn cael ei ddarllen yn uchel yn y llys, gall yr hyn a ddywedir gael ei adrodd yn y cyfryngau.

**Cwestiynau pellach neu gymorth i gofnodi neu recordio eich Datganiad Personol Dioddefwr**

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio neu beth i'w gynnwys, gallwch siarad gyda'r heddlu, yr Uned Gofal Tystion neu wasanaeth cymorth i ddioddefwyr trosedd. Gallant hefyd eich helpu i'w recordio.

### Datganiadau Personol Dioddefwr mewn gwrandawiadau parôl neu wrandawiadau[41] adolygu tariff \[a'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl]

7.9 Gallwch ofyn i'ch Datganiad Personol Dioddefwr gwreiddiol gael ei ddefnyddio mewn gwrandawiadau adolygu tariff ac yng ngwrandawiadau'r Bwrdd Parôl. [ac mewn gwrandawiadau Tribiwnlys Iechyd Meddwl]. Fodd bynnag, mae gennych hawl i ysgrifennu Datganiad Personol Dioddefwr newydd ar gyfer y gwrandawiadau hyn, lle gallwch egluro sut mae'r drosedd yn parhau i effeithio arnoch chi a/neu eich teulu, a'r effaith y gall unrhyw ganlyniad yn un o'r gwrandawiadau hyn ei chael arnoch. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i Ddatganiad Personol Dioddefwr a wneir i'r Bwrdd Parôl, (gweler **Hawl 11**) [ac i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl].

7.10 [Dalfan: Rydym yn gweithio ar newidiadau gyda'r farnwriaeth er mwyn i chi allu cyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl, os ydych yn

[41] Gall yr Uchel Lys adolygu isafswm tymor y troseddwyr hynny a gadwyd yn y ddalfa er mwyn Pleser Ei Fawrhydi a oedd o dan 18 oed ar yr adeg y digwyddodd y drosedd unwaith y bydd y troseddwr wedi gwasanaethu hanner eu lleiafswm tymor gwreiddiol, yng ngoleuni cynnydd a datblygiad a wnaed gan y troseddwr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod pobl ifanc yn newid yn fwy cyflym nag oedolion, mewn ffordd nad oedd yn hollol amlwg ar adeg dedfrydu. Gall dioddefwyr gan gynnwys aelodau agos o'u teulu sydd mewn profedigaeth gyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr i'r Uchel Lys.

gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (gweler Hawl 11). Gallai hyn fod yn berthnasol i chi os yw'r troseddwr yn cael ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a bod ei ryddhau yn cael ei ystyried. Bydd rheolau gwahanol yn berthnasol yn yr achosion hyn o ystyried y sensitifrwydd penodol sy'n ymwneud ag iechyd y troseddwr, a byddwn yn nodi'r rhain ochr yn ochr â'r cymorth sydd ar waith i'ch helpu i lywio'r broses hon. Er bod y polisi hwn yn fater i'r llywodraeth, mae drafftio rheolau i wneud i hyn weithio'n ymarferol yn fater i'r Pwyllgor Gweithdrefn Tribiwnlysoedd annibynnol. Rydym wedi gwahodd y Pwyllgor i ystyried gwneud rheolau newydd y bydd eu hangen i gyflawni'r polisi hwn.]

**Datganiadau Effaith ar y Gymuned**

**Gall yr heddlu gasglu mathau eraill o ddatganiadau i fanylu ar effaith trosedd a gyflawnwyd, er enghraifft lle mae cymuned wedi cael ei niweidio ar y cyd gan drosedd.**

**Defnyddir Datganiad Effaith ar y Gymuned mewn achosion eithriadol i roi llais i gymunedau yr effeithir arnynt yn y system gyfiawnder. Gall cymuned fod yn ardal ddaearyddol neu'n grŵp cymdeithasol. Mae'n darparu cyd-destun i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar effaith ehangach trosedd. Mae hyn yn helpu erlynwyr i asesu budd y cyhoedd yn well wrth ystyried a ddylid dwyn erlyniad ac yn galluogi'r llysoedd i ddeall difrifoldeb y drosedd yn well wrth ystyried dedfryd.**

[Noder: mae hwn yn ddalfan tra bod y Llywodraeth yn cynnal ymchwil ffurfiol i Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned i helpu i lywio sut rydym yn cynnwys mwy o wybodaeth amdanynt yn y Cod Dioddefwyr newydd]

DRAFT

**Hawl 8:** I dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst

8.1 Os bydd yr achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Tystion o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn) iddynt dderbyn yr wybodaeth gan y llys, a fydd o fewn **5 diwrnod gwaith** i ganlyniad y gwrandawiad perthnasol:

- amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad (**o fewn 1 diwrnod gwaith i'r holl ddioddefwyr**);
- canlyniad unrhyw wrandawiad mechnïaeth (ac amodau mechnïaeth perthnasol, unrhyw newidiadau perthnasol i'r amodau mechnïaeth hyn a'r rhesymau dros y newidiadau hynny);
- os oes gwarant arestio wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer y sawl sydd dan amheuaeth a chanlyniad gwrandawiad os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ailarestio; a
- chanlyniad unrhyw wrandawiad os yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi cael ei ailarestio.

8.2 Os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn pledio'n ddieuog a'i bod yn ofynnol i chi fynychu'r llys, mae gennych **Hawl** i:

- gael gwybod gan yr Uned Gofal Tystion os oes gofyn i chi roi tystiolaeth o fewn **1 diwrnod gwaith** (i'r holl ddioddefwyr) iddynt dderbyn yr wybodaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron;
- cael asesu eich anghenion a chael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth i dystion a all drefnu ymweliad â'r llys cyn dyddiad y treial i ymgyfarwyddo â'r adeilad, neu wasanaeth cymorth arall (gweler **Hawl 4**); a
- chael gwybod am ganlyniad unrhyw gais am fesurau arbennig (gweler **Hawl 4**).

8.3 Os oes gofyn i chi roi tystiolaeth, byddwch yn gallu atgoffa'ch hun drwy ddarllen eich datganiad tyst (neu ei wylio lle cafodd ei recordio). Lle bo'n bosibl, os yw'r llys yn caniatáu, bydd yr erlynydd yn cwrdd â chi cyn i chi fynd i'r llys i esbonio beth fydd yn digwydd ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

8.4 Os ydych yn aelod agos o'ch teulu sydd mewn profedigaeth, mae gennych **Hawl** i ofyn, gan eich Swyddog Cyswllt â Theuluoedd neu'ch Uned Gofal Tystion, am ymweliad â'r llys cyn dyddiad y treial i ymgyfarwyddo â'r adeilad, p'un a oes angen i chi roi tystiolaeth neu beidio. Mae gennych hefyd **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron neu adfocad a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Bydd y cyfarfod hwn fel arfer yn cael ei gynnal yn union cyn y treial, ac mae'n gyfle i chi gael eich cyflwyno iddynt a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

8.5 Os ydych yn oedolyn sydd wedi dioddef treisio neu drosedd rhywiol difrifol arall a'ch bod wedi'ch hysbysu bod yr achos yn mynd yn ei flaen i dreial, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda thîm yr erlyniad cyn i'r gwrandawiad ddigwydd. Bydd hyn yn darparu cyfle i chi drafod yr hyn sy'n digwydd nesaf, yr hyn y gallwch ei ddisgwyl os byddwch yn mynychu'r llys, a pha gymorth sydd ar gael i chi i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau. Gallwch hefyd ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych am y broses, ond er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'ch tystiolaeth yn y llys, ni fyddwch yn gallu trafod na gofyn cwestiynau am y dystiolaeth yn yr achos.

8.6 Wrth fynychu'r llys, a lle bo'n bosibl, byddwch yn gallu mynd i mewn trwy fynedfa wahanol i'r diffynnydd ac aros mewn man aros ar wahân cyn ac ar ôl i'ch achos gael ei glywed. Ar hyn o bryd nid oes gan rai adeiladau llysoedd fynedfeydd ar wahân i

ddioddefwyr, fodd bynnag, lle rhoddir gwybod iddynt, bydd staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn gwneud trefniadau i sicrhau nad oes rhaid i chi weld y diffynnydd wrth gyrraedd.

DRAFFT

8.7 Yn ystod y treial, mae’n bosibl y bydd rhaid i chi aros i roi tystiolaeth; bydd staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn rhoi pwynt cyswllt yn y llys i chi (a all fod yn aelod o wasanaeth cymorth i dystion) er mwyn i chi gael eich diweddaru am broses y treial a byddant hwy neu erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu adfocad yn dweud wrthych pa mor hir mae’n debygol y bydd rhaid i chi ddisgwyl.

8.8 Weithiau, mae’n bosibl y bydd angen i chi ddod yn ôl i'r llys ar ddiwrnod arall; os yw hyn yn digwydd, bydd staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi neu erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron neu adfocad yn dweud pam wrthych.

**Help wrth fynychu'r llys**

Gall gorfod mynychu llys fod yn brofiad pryderus i unrhyw ddioddefwr. Fodd bynnag, bydd yr Uned Gofal Tystion yn cysylltu â chi cyn y treial.

Yn ogystal â darparu’r **Hawliau** a restrir ym mharagraffau **8.1, 8.2** a **8.4**, gallant hefyd roi arweiniad a chyngor ymarferol i'ch helpu chi. Bydd hyn yn cynnwys:

- cael gwybod beth i'w ddisgwyl yn y llys ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am broses y llys;
- os yw'r dioddefwr dan 18 oed, cael gwybodaeth i dystion ifanc;
- cael cynnig cymorth gyda chyfarwyddiadau teithio i'r llys a chynllunio a/neu drefnu teithio neu lety;
- cael cynnig help i drefnu gofal plant neu gymorth ychwanegol i'ch galluogi i fynychu llys;
- cael gwybodaeth am hawlio treuliau a lwfansau tystion;
- cael eich atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych am y ddedfryd nad yw’r Uned Gofal Tystion yn gallu eu hateb; a
- chael cynnig atgyfeiriad at wasanaethau sy’n cefnogi dioddefwyr cyn, yn ystod neu ar ôl i chi fynychu’r llys.

Draft

**Hawl 9:** I dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau

9.1 Ar ddiwedd yr achos, mae gennych **Hawl** i gael gwybod beth yw'r canlyniad, gan gynnwys, lle bo ar gael, crynodeb byr o'r rhesymau dros y penderfyniad, [42] gan yr Uned Gofal Tystion, o fewn **1 diwrnod gwaith** iddynt dderbyn yr wybodaeth gan y llys, a fydd o fewn **5 diwrnod gwaith** i ganlyniad yr achos.

9.2 Os ceir y diffynnydd yn euog, mae gennych **Hawl** i gael gwybod pa ddedfryd a gawsant, gan gynnwys esboniad byr am ystyr ac effaith y ddedfryd gan yr Uned Gofal Tystion, o fewn **1 diwrnod gwaith** iddynt dderbyn yr wybodaeth gan y llys, a fydd o fewn **5 diwrnod gwaith** i ganlyniad yr achos. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddedfryd nad yw'r Uned Gofal Tystion yn gallu eu hateb, mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych nad yw'r Uned Gofal Tystion yn gallu eu hateb.

9.3 Os ydych yn aelod agos o'r teulu sydd mewn profedigaeth, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron:

- yn dilyn euogfarn, ond cyn gwrandawiad dedfrydu'r diffynnydd, i gadarnhau bod Datganiad Personol Dioddefwr wedi ei wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfoes (fel rheol, cynhelir y cyfarfod hwn yn y llys);
- yn dilyn y gwrandawiad dedfrydu i esbonio'r ddedfryd a roddwyd (fel rheol, cynhelir y cyfarfod hwn yn y llys);
- mewn achosion lle na cheir y diffynnydd yn euog neu caiff ei euogfarnu o drosedd lai difrifol, gwneir y cynnig o gyfarfod ychydig wythnosau ar ôl i'r achos ddod i ben oni bai fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu bod hyn yn amhriodol. Ar yr adegau prin pan fyddant yn penderfynu nad yw cyfarfod yn briodol, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei egluro i chi. Bydd amseriad gwirioneddol y cyfarfod yn dibynnu ar ddymuniadau'r teulu a chysylltir â chi i drafod pryd y dylid ei gynnal; ac
- mewn achos o lofruddiaeth lle canfyddir pob diffynnydd yn ddieuog o'r holl gyhuddiadau, bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn y broses a amlinellir yn y Safonau Cymorth Cenedlaethol i deuluoedd mewn profedigaeth. Gellir cael y Safonau Cymorth Cenedlaethol ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron yn: www.cps.gov.uk a bydd copi yn cael ei ddarparu i deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth fel rhan o becyn profedigaeth yr heddlu.

DRAFT

[42] Ni fydd yr Uned Gofal Tystion yn gallu rhoi esboniad os yw'r troseddwr wedi ei gael yn ddieuog gan reithgor, oherwydd nad oes rhaid i'r rheithgor ddarparu rhesymau dros eu penderfyniad.

**Os ydych yn credu bod y ddedfryd a roddwyd i'r troseddwr yn rhy isel o lawer**

9.4 Ar gyfer rhai achosion (ond nid pob un) a ddedfrydir yn Llys y Goron, gallwch ofyn[43] i'r Twrnai Cyffredinol[44] gyfeirio'r ddedfryd at y Llys Apêl i'w hailystyried. Dim ond os yw'r Twrnai Cyffredinol yn credu bod y ddedfryd nid yn unig yn drugarog ond yn 'rhy drugarog', [45] lle mae'r barnwr dedfrydu wedi gwneud gwall dybryd neu bennu dedfryd sydd y tu allan i'r amrediad o ddedfrydau ar gael yn rhesymol yn amgylchiadau'r achos, y gellir gwneud hyn.

9.5 Os yw'r Twrnai Cyffredinol o'r farn bod y ddedfryd yn cwrdd â'r safon o fod yn 'rhy drugarog', caiff yr achos ei gyfeirio at y Llys Apêl. Mae'n rhaid i'r Twrnai Cyffredinol ystyried y mater cyn gynted â phosibl ar ôl y ddedfryd a heb fod yn hwyrach na'r **28ain diwrnod calendr** ar ôl i'r ddedfryd gael ei rhoi (mewn oriau busnes a gyda digon o amser ar gyfer ystyried). Os yw'r Llys Apêl yn cytuno, gall gynyddu'r ddedfryd.

9.6 Bydd yr Uned Gofal Tystion yn rhoi gwybod i chi am y cynllun, pan gewch wybod beth yw'r ddedfryd yn yr achos.

**Os yw'r troseddwr yn apelio**

9.7 Weithiau bydd y troseddwr yn gofyn i'r llys edrych ar yr achos neu'r ddedfryd eto. Gelwir hyn yn apêl. Bydd yr hyn sy'n digwydd nesaf yn dibynnu ar a yw'r troseddwr yn cael apelio ai peidio ac os felly, canlyniad yr apêl.

**Os gwneir cais i Lys y Goron i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon.**

9.8 Os yw'r troseddwr yn apelio i Lys y Goron, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Tystion o fewn **1 diwrnod gwaith** iddynt dderbyn yr wybodaeth gan y llys, a fydd o fewn **5 diwrnod gwaith** i ganlyniad y gwrandawiad perthnasol**:**

- bod hysbysiad apêl wedi ei wneud;
- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawiad; a
- chanlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r ddedfryd wreiddiol.

9.9 Os ydych yn dymuno mynychu'r apêl, mae gennych **Hawl** i staff y llys drefnu i chi:

- aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr a'i deulu a ffrindiau, lle bynnag y bo'n bosibl;
- cael pwynt cyswllt yn Llys y Goron; a
- derbyn gwybodaeth am wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr lle bo'n briodol ac ar gael.

**Os gwneir cais i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu y gwneir cais neu apêl i Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig mewn achos troseddol ar bwynt cyfreithiol.**

9.10 Os bydd y troseddwr yn apelio i'r Llys Apêl neu Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal Tystion o fewn **5 diwrnod gwaith** (**1 diwrnod gwaith** dan **Hawliau Estynedig** – gweler tudalen 10 y Cod hwn) iddynt dderbyn yr wybodaeth gan y llys, a fydd o fewn **5 diwrnod gwaith** i ganlyniad y gwrandawiad perthnasol:

DRAFT

[43] Gall y CPS hefyd gysylltu â'r Twrnai Cyffredinol os oes ganddynt bryderon am y ddedfryd.

[44] Y Twrnai Cyffredinol yw'r prif gynghorydd cyfreithiol i'r Goron ac mae ganddo/ganddi nifer o swyddogaethau lles y cyhoedd annibynnol, yn ogystal â goruchwyliaeth dros adrannau Swyddogion y Gyfraith.

[45] Mae dedfryd yn 'rhy drugarog' os yw'n disgyn y tu allan i'r amrediad arferol o ddedfrydau y gallai'r barnwr yn rhesymol fod wedi eu hystyried yn briodol.

- os yw'r troseddwr wedi cael caniatâd i apelio yn erbyn yr euogfarn, y ddedfryd neu bwynt cyfreithiol;
- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawiad, ac unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon (o fewn **1 diwrnod gwaith** ar gyfer yr holl ddioddefwyr);
- os yw'r troseddwr i gael ei ryddhau ar fechnïaeth cyn apêl neu os yw'r amodau mechnïaeth wedi cael eu newid (o fewn **1 diwrnod gwaith** ar gyfer yr holl ddioddefwyr);
- enw cyswllt ar gyfer y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu staff Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig;
- canlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r ddedfryd wreiddiol, a
- sut i ofyn am gopi gan y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu staff Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig o ddyfarniad y llys yn yr achos unwaith y bydd wedi cael ei gyhoeddi.

9.11 Os ydych yn dymuno mynychu'r apêl, mae gennych **Hawl** i staff y llys neu staff Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig drefnu:

- aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr a'i deulu a ffrindiau, lle bynnag y bo'n bosibl; a
- gwneud trefniadau arbennig ar eich rhan os yw'r troseddwr yn bresennol ac nad ydych eisiau eistedd yn ystafell y llys (mae'n anghyffredin i'r troseddwr fynychu gwrandawiadau yn y Goruchaf Lys).

9.12 Yn dilyn penderfyniad i roi caniatâd i droseddwr apelio, os ydych yn berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn iddynt esbonio natur yr apêl a'r prosesau llys.

9.13 Wrth benderfynu ar apêl yn erbyn dedfryd, bydd y llys bob amser yn cymryd i ystyriaeth unrhyw Ddatganiad Personol Dioddefwr a ystyriwyd gan y llys dedfrydu.

9.14 Nid oes angen fel arfer darparu datganiad personol pellach i'r Llys Apêl. Fodd bynnag, os oes gwybodaeth y dylai'r llys wybod am yr effaith barhaus y mae'r drosedd wedi ei chael arnoch, gellir anfon Datganiad Personol Dioddefwr newydd neu bellach i'r Llys drwy'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron.

### Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

9.15 Mae'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn ymchwilio i gamweddau honedig cyfiawnder troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gall troseddwr ofyn i'r Comisiwn adolygu eu heuogfarnau a/neu ddedfryd os oes rhywfaint o wybodaeth newydd neu ddadl newydd a allai olygu fod yr euogfarn yn anniogel neu'r ddedfryd yn rhy hir.

9.16 Wrth adolygu achos, bydd y Comisiwn yn asesu'r effaith bosibl arnoch chi ac yn penderfynu a ddylid eich hysbysu.

9.17 Ni fydd y Comisiwn fel arfer yn ceisio cysylltu â chi dim ond oherwydd eu bod wedi derbyn cais. Mae hyn oherwydd na fydd y rhan fwyaf o adolygiadau yn arwain at atgyfeiriad at y Llys Apêl, ac felly nid oes angen eich hysbysu bod y troseddwr wedi gwneud cais. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i chi os ydynt yn credu bod siawns resymol y gallwch ganfod eu bod yn edrych ar achos drwy'r cyfryngau neu drwy ffynhonnell arall. Bydd y Comisiwn fel rheol yn gweithio â'r heddlu i roi gwybod i chi am gais a byddant yn cysylltu â chi eto pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn ag a ydynt yn atgyfeirio'r achos ai peidio.

DRAFT

9.18 Os yw’r Comisiwn yn penderfynu nad yw'n briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, ond wedyn yn penderfynu atgyfeirio'r euogfarn neu ddedfryd at y llysoedd, bydd y Comisiwn yn ceisio eu gorau i gysylltu â chi cyn i’r achos gael ei atgyfeirio i apêl.

DRAFFT

**Hawl 10:** I dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl

10.1 Os byddwch yn mynychu'r llys[46] i roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio treuliau penodol gan Wasanaeth Erlyn y Goron[47], er enghraifft, ar gyfer teithio, gofal plant, colli enillion, lluniaeth a phrydau bwyd (mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron yn: **www. cps.gov.uk**). Bydd yr Uned Gofal Tystion yn gallu helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau am hawlio treuliau.

10.2 Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn talu unrhyw dreuliau y maent wedi penderfynu sy'n ddyledus i chi o fewn **10 diwrnod gwaith** i dderbyn ffurflen hawlio wedi ei llenwi yn gywir.

10.3 Os cymerodd yr heddlu unrhyw eiddo oddi arnoch fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted ag y byddant wedi gorffen ag ef. Bydd yr heddlu yn gallu helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddychwelyd eich eiddo.

DRAFFT

[46] Os ydych yn mynychu carchar i gyflwyno eich Datganiad Personol Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl rydych yn gymwys i hawlio rhai treuliau gan y Bwrdd Parôl, er enghraifft, ar gyfer teithio, neu luniaeth a phrydau. Bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn gallu helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau am hawlio treuliau.

[47] Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eraill sy'n gyfrifol am erlyn trosedd fod â rheolau y mae'n bosibl i ddioddefwyr eu defnyddio i gael ad-daliad o gostau yr aethpwyd iddynt trwy fynychu llys i roi tystiolaeth.

**Hawl 11:** I dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn

**Cynllun Cyswllt Dioddefwyr**

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Os ydych yn ddioddefwr neu'n berthynas teuluol mewn profedigaeth a bod y troseddwr wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd dreisgar neu rywiol benodedig, ac wedi'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar44 (neu gael ei gadw mewn ysbyty am driniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb orchymyn cyfyngu), mae gennych Hawl i gael eich atgyfeirio'n awtomatig o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dedfrydu i Gynllun Cyswllt Dioddefwyr Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf ac i Swyddog Cyswllt Dioddefwyr gael eich neilltuo i chi. Bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â chi o fewn 20 diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad.*

11.1 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'ch gwnaeth yn ddioddefwr a'r math o ddedfryd a hyd y ddedfryd ar gyfer y troseddwr, mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio'n awtomatig o fewn **10 diwrnod gwaith** i'r dedfrydu i Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf ac i Swyddog Cyswllt Dioddefwyr gael eich neilltuo i chi. Bydd hyn yn berthnasol mewn achosion lle cafwyd y troseddwr yn euog o drosedd dreisgar neu rywiol benodedig,[48] a'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar[49] neu gael ei gadw mewn ysbyty am driniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb orchymyn cyfyngu.[50] Bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â chi o fewn **20 diwrnod gwaith** i'r atgyfeiriad.

.

11.2 Lle'r ydych yn dewis derbyn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, mae gennych hawl i dderbyn gwybodaeth ar gamau allweddol o ddedfryd y troseddwr (gweler 11.3). Gallwch optio allan ac optio yn ôl i mewn i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ar unrhyw adeg tra bod y troseddwr yn gwasanaethu ei ddedfryd/gorchymyn ysbyty.

11.3 Bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud wrthych:

- beth mae dedfryd y llys yn golygu o ran cadw'r troseddwr yn y carchar neu'r ysbyty, ac os oes unrhyw newidiadau i'w ddedfryd;
- pan mae troseddwr yn dod yn gymwys i'w ystyried ar gyfer trosglwyddo i amodau agored;
- os yw carcharor yn symud i amodau agored;
- pan mae troseddwr yn cael ei ystyried ar gyfer ei ryddhau neu ryddhad amodol;
- pryd fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau, neu ei ryddhau o'r ysbyty, ac os yw'n cael ei alw yn ôl i'r carchar neu'r ysbyty;
- sut i wneud cais i'r Bwrdd Parôl i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus, neu i gyflwyno'ch barn os bydd rhywun arall yn gwneud cais am wrandawiad cyhoeddus;

- sut i wneud Datganiad Personol Dioddefwr lle mai cyfrifoldeb y Bwrdd Parôl [neu'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl] yw penderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd i ryddhau'r troseddwr o'r carchar [neu benderfynu a ddylid rhyddhau'r troseddwr neu ollwng y

[48] Fel y diffinnir yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004.

[49] Gall carchar yn yr achos hwn olygu unrhyw le y mae'r person yn debygol o gael ei gadw, gan gynnwys er enghraifft Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

[50] Gosodir cyfyngiadau ar glaf os yw'r llys o'r farn bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu pobl eraill rhag niwed difrifol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd rhan mewn rheoli 'Cleifion dan gyfyngiadau'. Golyga hyn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniadau am adsefydlu'r troseddwr. Mae 'Cleifion anghyfyngedig' yn cael eu rheoli gan glinigwyr, a rheolwyr ysbyty.



DRAFT

troseddwr o'r ysbyty];

- sut i wneud cais i ddarllen eich Datganiad Personol Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl [neu'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl], neu drefnu iddo gael ei ddarllen ar eich rhan, neu wneud rhag-recordiad yn yr achosion hynny lle mae'r Bwrdd Parôl [neu'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl] yn cynnal gwrandawiad llafar;
- sut i wneud cais am amodau trwydded/rhyddhau i leihau'r siawns y byddwch yn dod ar draws y troseddwr yn y gymuned, neu eu hatal rhag cysylltu â chi;
- sut i wneud cyflwyniadau i'r Bwrdd Parôl neu ofyn cwestiynau iddynt [a'r cymorth emosiynol sydd ar gael os bydd ei angen arnoch i'ch helpu wrth arsylwi gwrandawiadau parôl];

- am unrhyw amodau trwydded/rhyddhau sy'n ymwneud â chi a'r dyddiad y byddant yn dod i ben neu lle mae cais i'w newid neu gael gwared arnynt wedi cael ei wneud;
- sut i ofyn am grynodeb o benderfyniad y Bwrdd Parôl a sut i wneud sylwadau lle mae'r Bwrdd Parôl yn penderfynu bod y troseddwr yn ddiogel i'w ryddhau;

DRAFFT

- os yw’r troseddwr yn dianc o’r ddalfa;
- sut i ofyn am wybodaeth pe bai’r troseddwr yn cael ei euogfarnu o drosedd fwy difrifol (gweler 11.18 – 11.19); a
- sut i wneud cais am ailystyried (lle bo’n gymwys) (gweler 11.9 – 11.10).

[Sylwer: bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru ymhellach i adlewyrchu'r weithdrefn y cytunwyd arni yn dilyn gwaith perthnasol gyda'r farnwriaeth a nodir o dan Hawl 7 mewn perthynas â Datganiadau Personol Dioddefwyr yn y Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl lle mae troseddwr yn cael ei gadw mewn ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.]

11.4 Yn ychwanegol at y troseddau statudol lle y cynigir y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd yn cynnig mynediad at y cynllun i’r dioddefwyr lle mae'r troseddwr wedi ei ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar (neu ei gadw mewn ysbyty i gael triniaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb orchymyn cyfyngiad) am:

- Achosi Marwolaeth drwy Yrru’n Ddiofal neu’n Anystyriol (Deddf Traffig Ffyrdd 1988);
- Achosi Niwed Difrifol drwy Yrru’n Beryglus (Deddf Traffig Ffyrdd 1988); neu
- Ymddygiad rheoli neu gymhellol mewn perthynas agos neu deuluol (Deddf Troseddau Difrifol 2015).

### Dioddefwyr troseddwyr sydd o dan 18 oed

11.5 Os yw’r troseddwr yn eich achos o dan 18 oed ac nad ydych yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, gall y Tîm Troseddau Ieuenctid gysylltu â chi yn uniongyrchol. Mae hyn yn digwydd mewn achosion lle mae troseddwr ifanc yn cael ei ddedfrydu i lai na 12 mis yn y ddalfa, 12 mis neu fwy am drosedd nad yw'n rhywiol neu sy’n ddi-drais, neu orchymyn cymunedol. Mae gorchymyn cymunedol yn gosod amodau ar droseddwr sy’n treulio ei ddedfryd yn y gymuned yn hytrach nag yn y carchar.

11.6 Gall y Tîm Troseddau Ieuenctid ofyn am eich barn cyn dedfrydu er mwyn archwilio a ydych eisiau cymryd rhan mewn unrhyw fentrau Cyfiawnder Adferol (gweler **Hawl 3**), lle bo hynny'n briodol ac ar gael.

11.7 Mae gennych **Hawl** i dderbyn yr wybodaeth ganlynol gan y Tîm Troseddau Ieuenctid:

- gwybodaeth am gynnydd achos y troseddwr ar gais; a
- gwybodaeth am wasanaethau priodol sy’n cefnogi dioddefwyr os byddwch yn gofyn am gymorth ychwanegol.

### Y Bwrdd Parôl

11.8 Mae’n rhaid i'r Bwrdd Parôl[51]:

- ystyried unrhyw gais gan ddioddefwr i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus;

- ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan ddioddefwyr am amodau trwydded; lle mae dioddefwr wedi gofyn am amod trwydded sydd heb ei gynnwys, neu wedi ei newid,

[51] Caiff y rhan fwyaf o garcharorion eu rhyddhau yn awtomatig heb unrhyw gyfranogiad gan y Bwrdd Parôl. Y prif gategorïau o garcharorion y mae’r Bwrdd Parôl yn gyfrifol am ystyried addasrwydd ar gyfer eu rhyddhau yw: a) carcharorion sy’n gwasanaethu dedfryd benodol wedi ei hymestyn y gellir eu rhyddhau ar drwydded ar ôl gwasanaethu rhan benodol o’u dedfryd yn y ddalfa, b) carcharorion sy’n gwasanaethu dedfryd amhenderfynadwy megis y rheiny sy’n gwasanaethu dedfryd am oes neu gyfnod o garchar i ddiogelu’r cyhoedd, ac c) carcharorion sy’n gwasanaethu dedfryd benodol safonol sydd wedi cael eu galw yn ôl i’r ddalfa ar ôl torri amodau eu trwydded.



DRAFT

a rhoi esboniad am yr hyn na chafodd ei gynnwys neu ei newid;

- darllen y Datganiad Personol Dioddefwr os cyflwynwyd un;
- ystyried unrhyw gais gan y dioddefwr i'w ganiatáu i fynychu'r gwrandawiad a darllen ei Ddatganiad Personol Dioddefwr neu gael rhywun i'w ddarllen ar ei ran;
- oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, cytuno i'r datganiad gael ei ddarllen yn y gwrandawiad gan y dioddefwr neu rywun arall ar ei ran;

- ystyried unrhyw gyflwyniadau a wneir gan y dioddefwr, a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau y mae'n eu gofyn;
- rhoi sylw i amddiffyn unrhyw ddioddefwyr y carcharor wrth wneud penderfyniad ynghylch amddiffyn y cyhoedd; a

- darparu crynodeb o'r penderfyniad parôl ar gais, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. [52]

11.9 [Dalfan: Rydym yn gweithio ar newidiadau fel y gallwch gymryd rhan mewn mwy o ffyrdd yn y broses barôl. Byddwn yn nodi gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys y cymorth emosiynol y byddwch yn gallu cael mynediad ato os bydd ei angen arnoch.]

[52] Er enghraifft, lle gallai roi rhywun - y troseddwr, dioddefwr neu berson arall, mewn perygl.



DRAFT

**Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwr**

**Pryd y gallaf wneud Datganiad Personol Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl?**

Gallwch wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar unrhyw adeg yn arwain at yr adolygiad parôl, ond rhaid ei gyflwyno mewn da bryd er mwyn i'r Bwrdd Parôl ei ddarllen. Os yw'r Bwrdd Parôl yn cynnal gwrandawiad llafar, rhaid i Ddatganiad Personol Dioddefwr gael ei gyflwyno o leiaf **wyth wythnos** ymlaen llaw. Mae'n annhebygol iawn y caiff gwrandawiad parôl ei ohirio i ganiatáu i Ddatganiad Personol Dioddefwr hwyr gael ei gyflwyno.

**A yw'n bosibl i mi newid fy meddwl neu ddiweddaru fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Gallwch ddiweddaru eich Datganiad Personol Dioddefwr neu ysgrifennu un newydd, ond bydd angen i chi dynnu fersiwn flaenorol yn ôl yn gyntaf. Gallwch ysgrifennu datganiad newydd ar gyfer pob adolygiad parôl a gynhelir.

**A fydd y troseddwr yn gallu gweld fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd y troseddwr yn gweld yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r adolygiad parôl, oni bai fod y Bwrdd Parôl mewn amgylchiadau eithriadol yn cytuno peidio â'i datgelu i'r troseddwr. Mae'r arfer hon yn gyson ag egwyddorion sylfaenol ein system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno i'r troseddwr ddarllen eich datganiad gallwch ofyn i'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr wneud cais i'r datganiad gael ei dynnu'n ôl, dan gais peidio â datgelu. Mae rheolau ynglŷn â hyn y bydd rhaid eu dilyn, gan gynnwys amserlenni tynn ar gyfer gwneud cais (**wyth wythnos** cyn gwrandawiad llafar) a rhesymau penodol dros pam y gellir tynnu'n ôl, a amlinellir yn Rheolau'r Bwrdd Parôl 2019.
Y Bwrdd Parôl sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol. Os yw'r Bwrdd yn cytuno i beidio â datgelu eich Datganiad Personol Dioddefwr, gall cyfreithiwr y carcharor ei weld o hyd, er efallai y gofynnir iddi/ef beidio â'i ddatgelu i'r carcharor.

Os ydych yn gwneud cais i beidio â datgelu ac mae'r Bwrdd Parôl yn ei wrthod, gallwch dynnu eich Datganiad Personol Dioddefwr yn ôl.

**Cwestiynau pellach neu gymorth i gofnodi neu recordio eich Datganiad Personol Dioddefwr**

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio neu beth i'w gynnwys, gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Gallant hefyd eich helpu i recordio eich datganiad personol.

### Gofyn am i benderfyniad parôl gael ei adolygu[53] (Mecanwaith Ailystyried)

11.9 Mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried troseddwyr penodol ar gyfer parôl (rhyddhau ar drwydded) neu ail ryddhau yn dilyn eu galw yn ôl, yn seiliedig ar eu risg o niwed i'r cyhoedd.

11.10 Os yw'r Bwrdd Parôl yn penderfynu ei bod yn ddiogel i ryddhau troseddwr, mae'r penderfyniad yn un dros dro am **21**[54] **diwrnod calendr** yn y rhan fwyaf o achosion (ac eithrio galw yn ôl dedfrydau penodol safonol[55]). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i'r Bwrdd Parôl ailystyried y penderfyniad yn ystod y cyfnod hwn, os all ddadlau:

- na ddilynwyd y broses gywir yn adolygiad y troseddwr ar gyfer parôl - er enghraifft, ni ystyriwyd tystiolaeth bwysig; neu
- fod y penderfyniad yn afresymegol neu'n afresymol - ni ellir cyfiawnhau'r penderfyniad ar sail y dystiolaeth o risg a ystyriwyd.

Fel dioddefwr, gallwch gyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i gais am ailystyried gael ei wneud, os credwch fod y penderfyniad yn bodloni'r naill faen prawf yma. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn y ffenestr **21 diwrnod** dros dro. Dim ond lle mae tystiolaeth bod y meini prawf yn cael eu bodloni y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud hynny. Byddwch yn derbyn llythyr yn rhoi gwybod i chi a yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais am ailystyried ai peidio.

### Proses Adolygiad Gofynion Hysbysu Troseddwyr Rhyw

11.11 Mae troseddwyr rhyw cofrestredig yn ddarostyngedig i 'ofynion hysbysu'. Golyga hyn bod rhaid iddynt ddweud wrth yr heddlu am rai o'u manylion personol. Mae gofynion hysbysu yn ganlyniad awtomatig euogfarn neu rybudd am drosedd Atodlen 3 o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ond bydd y cyfnod o amser y mae'r troseddwr yn ddarostyngedig i'r gofynion yn amrywio yn ôl y ddedfryd a roddir iddynt. Mae torri amodau'r gofynion hysbysu yn drosedd a gellir ei gosbi gyda hyd at bum mlynedd o garchar.

11.12 Gall troseddwyr sy'n destun gofynion hysbysu am oes wneud cais i gael adolygu hyn ar ôl cyfnod penodol yn dilyn eu hysbysiad cyntaf, sydd fel arfer yn digwydd wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Y cyfnod penodol yw **15 mlynedd** i oedolion ac **8 mlynedd** i ieuenctid. Os yw'r troseddwr yn gwneud cais o'r fath, bydd yr heddlu wedyn yn cynnal adolygiad, gan gynnwys asesiad risg i benderfynu p'un a all gofynion hysbysu'r troseddwr gael eu terfynu. Bydd troseddwyr rhyw a asesir fel rhai sy'n parhau'n risg yn aros yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu a byddant yn gwneud hynny am oes os oes angen.

11.13 Os ydych yn ddioddefwr troseddwr sy'n gwneud cais o'r fath, mae gennych **Hawl** i gael cysylltiad gan yr heddlu i roi eich barn ar y cais fel rhan o'u hadolygiad. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

### Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor

[53] https://www.gov.uk/guidance/challenge-a-parole-decision

[54] Mewn amgylchiadau eithriadol gellir gwneud ceisiadau i leihau'r cyfnod hwn, os digwydd hyn rhoddir gwybod i ddioddefwyr.

[55] Mae dedfryd benodol i garchar am gyfnod penodol o amser. Bydd y carcharor yn treulio hanner cyntaf neu ddau draean (yn dibynnu ar hyd cyffredinol y ddedfryd a'r drosedd) o'r ddedfryd yn y carchar a'r gweddill yn y gymuned 'ar drwydded'. Os ydynt yn torri unrhyw amodau trwydded, er enghraifft maent yn arddangos ymddygiad gwael sy'n cynyddu eu risg, gallant gael eu galw yn ôl i'r carchar i wasanaethu gweddill y ddedfryd.

11.14 Os ydych wedi bod yn ddioddefwr trosedd a gyflawnwyd gan wladolyn tramor a bod y troseddwr:

- wedi cael dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy, neu orchymyn ysbyty, am drosedd yn eich erbyn;

DRAFFT

- wedi cael argymhelliad gan y llys i gael ei alltudio am drosedd yn eich erbyn; neu
- wedi ei ddedfrydu i gyfnod yn y carchar am drosedd dreisgar neu rywiol.

yna mae gennych **Hawl** i dderbyn gwybodaeth am alltudiaeth y troseddwr. Gallwch ddewis peidio â derbyn yr wybodaeth hon. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Swyddog Cyswllt Dioddefwyr a Rheolwyr Troseddwyr) gymryd pob cam rhesymol i weithio gyda'r awdurdodau mewnfudo
er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod gwybodaeth am statws mewnfudo'r carcharor ac unrhyw wybodaeth alltudio yn cael ei throsglwyddo i ddioddefwyr.

11.15 Os ydych chi wedi dioddef trosedd fel y nodir yn 11.14, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr a bennwyd gan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (gweler 11.1) yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Gartref ar eich rhan.

11.16 Os nad ydych yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr neu wedi optio allan o'r cynllun, ond yn bodloni'r meini prawf (gweler 11.14), mae gennych **Hawl** i ofyn am ddiweddariadau ynglŷn ag achos mewnfudo'r troseddwr sy'n wladolyn tramor yn uniongyrchol gan Dîm Cymorth i Ddioddefwyr y Swyddfa Gartref.

11.17 Gall Tîm Cymorth i Ddioddefwyr y Swyddfa Gartref ddweud wrthych:

- p'un a yw'r Swyddfa Gartref yn bwriadu cymryd camau alltudio yn erbyn y troseddwr;
- canlyniad terfynol unrhyw apêl yn erbyn alltudio;
- pryd fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o ddalfa mewnfudwyr;
- pan fydd y troseddwr wedi cael ei alltudio; neu
- os nad yw'r troseddwr yn cael ei alltudio ac os yn bosibl, y rhesymau pam.

### Adolygiadau Trosedd Ddifrifol Bellach

11.18 Os yw'r troseddwr yn cyflawni Trosedd Ddifrifol Bellach[56] tra'i fod dan oruchwyliaeth statudol gan ddarparwr gwasanaethau prawf, neu yn fuan ar ôl i'r oruchwyliaeth hon ddod i ben, bydd y darparwr gwasanaethau prawf yn cynnal Adolygiad Trosedd Ddifrifol Bellach i ymchwilio i sut y rheolwyd yr achos ac a oes yna unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud i reoli achosion yn y dyfodol.

11.19 Yn y rhan fwyaf o achosion difrifol, bydd darparwyr gwasanaethau prawf yn cynnig rhannu canfyddiadau Adolygiad Trosedd Ddifrifol Bellach â'r dioddefwr neu eu teuluoedd yn dilyn euogfarn y troseddwr. Os yw hyn yn digwydd, mae gennych **Hawl** i gael hysbysiad gan yr Uned Gofal Tystion i ofyn p'un a hoffech gyfarfod gydag uwch reolwr y darparwr gwasanaethau prawf i siarad am ganfyddiadau'r Adolygiad Trosedd Ddifrifol Bellach, ac a hoffech dderbyn copi.

DRAFT

[56] Trosedd a restrir yn Atodiad C i Gyfarwyddyd Prawf 15/2014 'Gweithdrefnau hysbysu ac adolygu ar gyfer troseddau difrifol pellach' (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd). Ar hyn o bryd, y rhain yw pob trosedd dreisgar neu rywiol ddifrifol sy'n denu uchafswm o 14 mlynedd o garchar neu ddedfryd amhenodol.

**Hawl 12:** I wneud cwyn am Hawliau sydd heb eu diwallu

12.1 Os ydych yn credu nad ydych wedi derbyn unrhyw un o'ch **Hawliau** o dan y Cod hwn, gallwch wneud cwyn. Yn y lle cyntaf, ac os ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, dylech drafod eich cwyn gyda'r person yr ydych wedi bod yn delio ag ef yn y darparwr gwasanaeth dan sylw.

12.2 Os ydych yn dal yn anhapus, neu os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn trafod y gŵyn gyda'r person yr ydych wedi bod yn delio ag ef, gallwch wneud cwyn drwy drefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth. [57] Byddant yn rhoi gwybodaeth i chi am eu gweithdrefn gwyno, ac yn ymateb o fewn yr amserlenni a nodir yn y weithdrefn hon.

12.3 Os ydych yn anfon eich cwyn i'r darparwr gwasanaeth anghywir neu fod angen i fwy nag un ei thrin, byddant yn rhoi gwybod i chi.

***TESTUN GWREIDDIOL:*** *Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl i chi orffen gweithdrefn gwyno'r darparwr gwasanaeth, neu eu bod yn cymryd gormod o amser i ddod yn ôl atoch, gallwch ofyn i'ch Aelod Seneddol gyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried unrhyw gwynion a atgyfeiriwyd atynt ac yn cynnal ymchwiliad annibynnol lle bo hynny'n briodol.*

12.4 Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl i chi orffen gweithdrefn gwyno'r darparwr gwasanaeth, neu os yw'n cymryd gormod o amser i gysylltu â chi, gallwch gyfeirio'ch cwyn yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Os nad yw eich cwyn yn ymwneud â'ch profiadau fel dioddefwr trosedd, dylech ofyn i'ch Aelod Seneddol atgyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon, yn hytrach na'i hanfon eich hun. Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried unrhyw gwynion a atgyfeiriwyd atynt ac yn cynnal ymchwiliad annibynnol lle bo hynny'n briodol.

12.5 Gellir canfod rhagor o wybodaeth am wneud cwyn i'r Ombwdsmon ar eu gwefan yn: www.ombudsman.org.uk neu drwy ffonio eu Llinell Gymorth i Gwsmeriaid: **0345 015 4033**. [58]

[57] Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gael proses gwynion glir, y gall dioddefwyr wneud cwyn drwyddi os nad yw eu **Hawliau** dan y Cod hwn wedi cael eu bodloni.

[58] Dydd Llun – Dydd Iau, 8.30am - 5.00pm, a Dydd Gwener, 8.30am – 12:00pm.



DRAFT

DRAFFT

DRAFT